

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd **Gareth Williams**
Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mehefin 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

14.30

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

2.1 SL(5)225 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Doethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

(Tudalennau 1 – 55)

CLA(5)–17–18 – Papur 1 – Adroddiad

CLA(5)–17–18 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)–17–18 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

3 Papurau i'w nodi yn ymwneud ag Offerynnau Statudol

14.35

3.1 SL(5)226 – Rheoliadau'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018

(Tudalennau 56 – 71)

CLA(5)–17–18 – Papur 4 – Rheoliadau

CLA(5)–17–18 – Papur 5 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–17–18 – Nodyn Cyngor



3.2 SL(5)220 – Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) 2018

(Tudalennau 72 – 76)

CLA(5)–17–18 – Papur 6 – Adroddiad gan gynnwys ymateb y Llywodraeth

CLA(5)–17–18 – Papur 7 – Llythyr drafft

4 Papurau i'w nodi

14.45

4.1 Tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

(Tudalennau 77 – 99)

CLA(5)–17–18 – Papur 8 – Tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

4.2 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Gweithredu Cynigion Comisiwn y Gyfraith

(Tudalennau 100 – 101)

CLA(5)–17–16 – Papur 9 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 12 Mehefin 2017

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

14.50

6 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru): Adroddiad drafft

(Tudalennau 102 – 130)

CLA(5)–17–18 – Papur 10 – Adroddiad drafft

CLA(5)–17–18 – Papur 11 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

7 Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd: Cytundeb Rhyng-Sefydliadol Drafft

(Tudalennau 131 – 133)

CLA(5)–17–18 – Papur 12 – Cytundeb Drafft

8 Bil yr UE (Ymadael): Y wybodaeth ddiweddaraf

(Tudalennau 134 – 146)

**CLA(5)-17-18 – Papur 13 – Bil yr UE (Ymadael): Y wybodaeth ddiweddaraf
Dyddiad y cyfarfod nesaf**

25 Mehefin 2018

SL(5)225 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth benthyciad i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd doethurol ôl-raddedig dynodedig sydd ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Mae'r Rheoliadau'n nodi:

- y gofynion cymhwyster ar gyfer cymorth benthyciad;
- beth yw cwrs "dynodedig";
- y camau ffurfiol sy'n ymwneud â gwneud cais am fenthyciad;
- manylion y symiau a thalu benthyciadau;
- manylion ynghylch benthyciadau i garcharorion cymwys; a
- gofynion o ran gwybodaeth

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheolau Sefydlog 21.2(x): Ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth eu cyhoeddi neu wrth eu gosod gerbron y Cynulliad.**

Gwnaed y Rheoliadau ar 23 Mai 2018 ond ni chawsant eu gosod tan 1 Mehefin 2018, sy'n oedi o 9 diwrnod. Gofynnir i'r Llywodraeth ddarparu unrhyw gyfiawnhad dros yr oedi 9 diwrnod cyn gosod y Rheoliadau hyn ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Mae rheoliad 3(3)(a) yn dweud nad yw person yn gymwys am fenthyciad ar gyfer Gradd Ddoethurol Ôl-raddedig os yw wedi cyrraedd 60 mlwydd oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd y mae'r cwrs yn dechrau.

Mae'r Pwyllgor yn codi'r pryder a ganlyn, sy'n ymwneud â hawliau dynol, mewn perthynas â'r terfyn oedran hwn.



Mae Erthygl 2 o BroTOCOL 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn) yn cynnwys hawl gyffredinol i addysg.

Mae Erthygl 14 y Confensiwn yn darparu y bydd yr hawliau a'r rhyddfrefiniau a nodir yn y Confensiwn yn cael eu sicrhau yn ddiwahân, heb wahaniaethu ar sawl sail amrywiol a ddiogelir, gan gynnwys oedran.¹

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y materion a godwyd gan reoliad 3(3)(a) yn berthnasol i'r hawl i addysg. Mae gosod terfyn oedran uchaf o 60 yn wahaniaethol. Felly, mae'n angenrheidiol edrych a oes cyfiawnhad dros y terfyn oedran uchaf. Os gellir ei gyfiawnhau, nid yw'n achos o wahaniaethu ac nid yw'n groes i'r Confensiwn. Mae'r Goruchaf Lys yn gosod prawf pedwar cam²:

- a) A oes nod cyfreithlon i'r cam sy'n ddigonol i gyfiawnhau cyfyngiad ar hawl sylfaenol?
- b) A yw'r cam wedi'i gysylltu yn rhesymegol â'r nod hwnnw?
- c) A ellid defnyddio cam llai ymwthiol?
- d) A geir cydbwysedd teg?

Mae'r Memorandwm Esboniad ôl yn rhoi cyfiawnhad dros osod cyfyngiad oedran o'r fath ar y sail mai:

- a) Nod y cynllun yw cynyddu sgiliau lefel uchel ar gyfer yr economi yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig. Mae'r Llywodraeth yn datgan, er mwyn sicrhau gwerth am arian, bod angen cyllid cynaliadwy a bod terfyn oedran o 60 yn lliniaru'r risg y caiff benthyciadau anghymesur eu cymryd gan fyfyrwyr hŷn a fydd yn annhebygol o ad-dalu swm y benthyciad yn llawn neu wneud ad-daliadau sylweddol, ac y byddai ganddynt nifer cyfyngedig o flynyddoedd gwaith lle byddai eu sgiliau ar gael i'r economi. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi canfyddiadau dadansoddiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud, sy'n ei harwain at y casgliad hwn.
- b) Mae angen sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ac mae'r Llywodraeth o'r farn bod gosod y terfyn oedran yn gysylltiedig yn rhesymol â'r nod.
- c) Ystyriwyd y posibilrwydd o nodi cam llai ymwthiol i gyflawni'r nod. Y casgliad oedd y byddai system a oedd yn gofyn am ymchwiliad ac asesiad unigol yn creu baich gweinyddol trwm a allai ddefnyddio adnoddau prin. Gallai system o'r fath hefyd gyflwyno cyfle i wneud penderfyniadau anghyson.
- d) Gan ystyried ei thystiolaeth sy'n ymwneud â chyfraddau ad-dalu benthyciadau, ond hefyd y cyfraddau cyflogaeth (nid diben y benthyciad yw hwyluso nifer y myfyrwyr sy'n derbyn cyrsiau gradd doethurol nad oes ganddynt fwriad penodol i ddychwelyd i'r gweithle), mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y cyfyngiad oed yn taro cydbwysedd teg, ac y cyfiawnheir y terfyn oedran.

¹Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi dyfarnu bod y 'mathau eraill o statws' a nodir yn Erthygl 14 yn cynnwys 'oedran', (Schwizgebel v Y Swistir (Rhif 25762/07)).

²R (ar gais Tigere) (Apelydd) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau (Ymatebydd) [2015] UKSC 57



Rydym yn croesawu'r cyfiawnhad a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac mae'n ymddangos bod y Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r cyfiawnhad o osod terfyn oedran uchaf o 60 yn y Rheoliadau hyn.

Y goblygiadau yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r gofynion cymhwysedd ar gyfer cyllid myfyrwyr wedi'u drafftio gan ystyried bod y DU yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Felly, bydd ambell fyfyrwr o'r UE yn gymwys i gael cymorth o dan y Rheoliadau. Ni ellir cadarnhau ar hyn o bryd pa effaith a gaiff ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar symudedd myfyrwyr.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb y Llywodraeth i'r pwynt craffu technegol sy'n codi yn yr adroddiad hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

13 Mehefin 2018



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 656 (Cy. 124)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Benthyciadau
at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig)
(Cymru) 2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cymorth benthyciad i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chysiau gradd ddoethurol ôl-raddedig dynodedig sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn delio â chymhwysra i gael cymorth benthyciad. I gymhwyso i gael cymorth benthyciad o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i fyfyrwr fod yn "myfyriwr cymwys". I fod yn fyfyrwr cymwys rhaid i berson fodloni'r darpariaethau cymhwysra yn rheoliad 3. Rhaid i berson ddod o fewn un o'r categorïau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1. Mae'r rhan fwyaf o'r categorïau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i'r person breswyllo fel arfer yng Nghymru.

At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyrir bod person sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, o ganlyniad i fod wedi symud o un o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd â chwrs dynodedig, yn preswyllo fel arfer yn y lle y mae'r person hwnnw wedi symud ohono (Atodlen 1, paragraff 1(3)). Caiff person gymhwyso i gael cymorth benthyciad fel myfyriwr cymwys os yw'n "carcharor cymwys". Nid yw person yn fyfyrwr cymwys os, ymhlith pethau eraill, yw'r person hwnnw eisoes wedi ennill cymhwyster sy'n cyfateb i radd ddoethurol neu'n uwch na gradd ddoethurol. Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer y cyfnod y caniateir i fyfyrwr cymwys gael cymorth benthyciad ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn, sef "cyfnod cymhwysra" y myfyriwr. Mae rheoliad 5 yn nodi'r amgylchiadau pan fo myfyriwr yn peidio â bod yn fyfyrwr cymwys.

Nid yw cymorth benthyciad ond ar gael o dan y Rheoliadau hyn mewn cysylltiad â chysiau

“dynodedig” o fewn ystyr rheoliad 4. Un gofyniad o dan reoliad 4(1) er mwyn i gwrs gradd ddoethurol fod yn gwrs dynodedig yw nad yw nifer y blynyddoedd academaidd sy'n ofynnol fel arfer i gwblhau'r cwrs yn llai na thair nac yn fwy nag wyth. Darperir cymorth benthyciad i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs dynodedig ble bynnag y maent yn astudio yn y Deyrnas Unedig. Mae rheoliad 6 yn cydnabod y caiff myfyriwr cymwys drosglwyddo i gwrs arall o dan amgylchiadau penodol. Mae rheoliadau 7 ac 8 yn nodi'r amgylchiadau y caiff myfyriwr gymhwyso i gael cymorth benthyciad odanynt o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i'r cwrs dynodedig ddechrau.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn delio â'r trefniadau ffurfiol o ran sut y mae myfyriwr cymwys yn gwneud cais am fenthyciad, gan gynnwys y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer swm y cymorth benthyciad a'i dalu; effaith absenoldeb myfyriwr cymwys o'r cwrs dynodedig neu os nad yw'r myfyriwr cymwys yn gallu ei gwblhau; ac effaith myfyriwr cymwys yn dod, neu'n peidio â bod, yn garcharor cymwys. Mae rheoliad 13 yn darparu mai uchafswm y benthyciad y gall myfyriwr cymwys ei gael yw £25,000, ac eithrio yn achos carcharor cymwys, pan fo'r uchafswm yn gyfyngedig i'r lleiaf o: (a) y ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r cwrs dynodedig; a (b) £25,000. Mae rheoliad 14 yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i dalu unrhyw fenthyciad mewn rhandaliadau. Mae rheoliad 14(5)(a) yn darparu na chaiff taliadau benthyciad mewn cysylltiad ag unrhyw un flwyddyn academaidd o gwrs dynodedig myfyriwr cymwys fod yn fwy na £10,609. O dan reoliad 14(8), nid yw Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud unrhyw daliadau benthyciad mewn perthynas â blwyddyn academaidd o gwrs dynodedig myfyriwr cymwys oni bai eu bod wedi cael, mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, gadarnhad gan yr awdurdod academaidd perthnasol bod, ymhlith pethau eraill, y myfyriwr yn bresennol ar y cwrs neu'n ymgymryd â'r cwrs a'i bod yn bosibl i'r myfyriwr gwblhau'r cwrs yn ôl yr amserlen. Os yw'r awdurdod academaidd perthnasol yn gallu gwneud hynny, dylai gadarnhau hefyd nad yw'r myfyriwr, mewn cysylltiad â'r cwrs, yn cael cyllid a ddarperir gan Gyngor Ymchwil neu gyllid a ddarperir gan, neu ar ran, Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig. Mae rheoliad 15 yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud taliad o'r benthyciad ar yr amod bod y myfyriwr yn darparu rhif yswiriant gwladol iddynt. Mae rheoliad 16 yn galluogi Gweinidogion Cymru i beidio â thalu rhagor o daliadau'r benthyciad os ydynt yn cael hysbysiad o absenoldeb myfyriwr o'r cwrs neu nad yw'r awdurdod academaidd perthnasol yn ystyried mwyach ei bod yn bosibl i'r myfyriwr gwblhau'r cwrs o fewn y cyfnod sy'n ofynnol fel arfer i wneud hynny.

Mae rheoliad 17 yn nodi sut y mae swm y benthyciad y ceir hawlogaeth iddo yn newid pan fydd myfyriwr cymwys yn dod yn garcharor cymwys neu'n peidio â bod yn garcharor cymwys. Mae rheoliad 18 yn nodi sut y gall Gweinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliadau o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn delio â gofynion gwybodaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 656 (Cy. 124)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Benthyciadau
at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig)
(Cymru) 2018**

Gwnaed 23 Mai 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 1 Mehefin 2018

Yn dod i rym 25 Mehefin 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22 a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(1) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

-
- (1) 1998 p. 30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147, Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7, Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257, Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76, O.S. 2013/1881 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88. *Gweler* adran 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c), (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22), o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Daeth swyddogaethau o dan is-adran (2)(a), (c) a (k) yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42, i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, erthygl 2, Atodlen 1 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Mehefin 2018 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu benthyciadau at radd ddoethurol ôl-raddedig i fyfyrwyr mewn perthynas â chysiau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018, pa un a yw unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei wneud cyn, ar neu ar ôl 1 Awst 2018.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “a gyllidir yn gyhoeddus” a “cael ei gyllido'n gyhoeddus” (“*publicly funded*”) yw cael ei gynnal neu ei gynorthwyo gan grantiau rheolaidd o'r cronfeydd cyhoeddus, ac mae ymadroddion cysylltiedig i'w dehongli yn unol â hynny;

ystyr “awdurdod academiaidd” (“*academic authority*”), mewn perthynas â sefydliad, yw'r corff llywodraethu neu gorff arall a chanddo swyddogaethau corff llywodraethu ac mae'n cynnwys person sy'n gweithredu gydag awdurdod y corff hwnnw;

ystyr “benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig” (“*postgraduate doctoral degree loan*”) yw benthyciad sy'n daladwy i fyfyrwr cymwys o dan Ran 4;

ystyr “bwrsari gofal iechyd” (“*healthcare bursary*”) yw bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg o dan adran 63(6) o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968(1) neu Erthygl 44 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(2);

mae “carcharor” (“*prisoner*”) yn cynnwys person sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn sefydliad troseddwr ifanc;

ystyr “carcharor cymwys” (“*eligible prisoner*”) yw carcharor—

(a) sy'n dechrau cwrs dynodedig ar neu ar ôl 1 Awst 2018;

(1) 1968 p. 46; diwygiwyd adran 63(6) gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p. 49), adran 20.

(2) O.S. 1972/1265 (G.I. 14).

- (b) sy'n bwrw dedfryd mewn carchar yn y Deyrnas Unedig;
- (c) sydd wedi ei awdurdodi gan Lywodraethwr neu Gyfarwyddwr y carchar neu gan awdurdod priodol arall yn y sefydliad carcharu i astudio'r cwrs dynodedig; a
- (d) y mae ei ddyddiad rhyddhau cynharaf o fewn 8 mlynedd i ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig;

ystyr "cronfeydd cyhoeddus" ("*public funds*") yw arian a ddarperir gan Senedd y Deyrnas Unedig gan gynnwys cronfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "cwrs" ("*course*"), oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw rhaglen astudio a gaiff ei haddysgu, rhaglen ymchwil, neu gyfuniad o'r ddwy, a gaiff gynnwys un neu ragor o gyfnodau o brofiad gwaith, ac sy'n arwain, ar ôl eu cwblhau'n llwyddiannus, at ddyfarnu gradd ddoethurol ôl-raddedig, ond nid yw cwrs sy'n arwain at ddoethuriaeth uwch na chwrs sy'n arwain at ddoethuriaeth drwy waith cyhoeddedig yn gwrs;

ystyr "cwrs dynodedig" ("*designated course*") yw cwrs a ddynodir gan reoliad 4(1) neu gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 4(5);

ystyr "cwrs dysgu o bell" ("*distance learning course*") yw cwrs nad yw'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwr sy'n ymgymryd â'r cwrs fod yn bresennol mewn perthynas ag ef, ac eithrio i fodloni unrhyw ofyniad a osodir gan y sefydliad i fod yn bresennol mewn unrhyw sefydliad—

- (a) at ddiben cofrestru, ymrestru neu unrhyw arholiad;
- (b) ar benwythnos neu yn ystod unrhyw wyliau; neu
- (c) ar sail achlysurol yn ystod yr wythnos;

ystyr "cwrs sy'n arwain at ddoethuriaeth drwy waith cyhoeddedig" ("*course which leads to a doctorate by publication*") yw cwrs sy'n arwain at radd ddoethurol ôl-raddedig a ddyfernir i berson ("P") ar sail traethawd ymchwil ar ffurf papurau ymchwil cyhoeddedig cysylltiedig, pa un a yw'r awdurdod academaidd perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i P—

- (a) cofrestru ar y cwrs;
- (b) ymgymryd â rhaglen astudio benodol; neu
- (c) sefyll arholiad terfynol;

ystyr "cwrs sy'n arwain at ddoethuriaeth uwch" ("*course which leads to a higher doctorate*") yw cwrs sy'n arwain at gymhwyster a ddyfernir i berson ("P")—

- (a) ar lefel academiaidd sy'n uwch na gradd ddoethurol ôl-raddedig; a
- (b) ar gyfer rhagoriaeth o ran cyfraniad P at ddatblygu gwyddoniaeth neu ddysgu;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/38" ("*Directive 2004/38*") yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor⁽¹⁾ ar hawl dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswyllo'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr "cyfnod arferol y cofrestriad" ("*ordinary period of registration*") yw nifer y blynyddoedd academiaidd sy'n ofynnol fel arfer i gwblhau cwrs;

mae i "cyfnod cymhwysra" ("*period of eligibility*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 5 mewn perthynas â myfyriwr cymwys;

ystyr "cyfnodau o brofiad gwaith" ("*periods of work experience*") yw—

- (a) cyfnodau o brofiad diwydiannol, proffesiynol neu fasnachol, gan gynnwys ymchwil, sy'n gysylltiedig â'r cwrs mewn sefydliad, ond mewn man y tu allan i'r sefydliad hwnnw;
- (b) cyfnodau pan fydd myfyriwr yn cael ei gyflogi ac yn preswyllo mewn gwlad y mae ei hiaith yn un y mae'r myfyriwr yn ei hastudio ar gyfer cwrs y myfyriwr hwnnw (ar yr amod bod y cyfnod preswyllo yn y wlad honno yn un o ofynion cwrs y myfyriwr hwnnw a bod astudio un neu ragor o ieithoedd modern yn cyfrif am ddim llai na hanner cyfanswm yr amser a dreulir yn astudio ar y cwrs);

ystyr "Cyngor Ymchwil" ("*Research Council*") yw unrhyw un o'r cynghorau ymchwil a ganlyn—

- (a) Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau;
- (b) Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol;
- (c) y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol;
- (d) Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol;
- (e) y Cyngor Ymchwil Feddygol;
- (f) Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol;
- (g) y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg;

ystyr "cymhwyster cyfatebol neu uwch" ("*equivalent or higher qualification*") yw cymhwyster y pennir yn unol â pharagraff (2) ei fod yn gymhwyster cyfatebol neu uwch;

(1) OJ Rhif L158, 30.04.2004, t. 77-123.

ystyr “Cynllun KESS 2” (“*KESS 2 Scheme*”) yw Cynllun Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth 2 a gyllidir, yn rhannol, gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop⁽¹⁾;

ystyr “Deddf 1998” (“*the 1998 Act*”) yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr “y ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr” (“*student loans legislation*”) yw Deddf Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) 1990⁽²⁾, Gorchymyn Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1990⁽³⁾, Deddf Addysg (Yr Alban) 1980⁽⁴⁾ a rheoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny neu’r Gorchymyn hwnnw, Gorchymyn Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Gogledd Iwerddon) 1998⁽⁵⁾ a rheoliadau a wneir o dan y Gorchymyn hwnnw neu Ddeddf 1998 a rheoliadau a wneir o dan Ddeddf 1998;

mae i “ffioedd” (“*fees*”) yr ystyr a roddir yn adran 57(1) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015⁽⁶⁾;

ystyr “ffoadur” (“*refugee*”) yw person a gydnabyddir gan lywodraeth Ei Mawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy’n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951⁽⁷⁾ fel y’i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967⁽⁸⁾;

ystyr “gweithiwr Twrcaidd” (“*Turkish worker*”) yw gwladolyn Twrcaidd—

- (a) sy’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd; a
- (b) sy’n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi’n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn UE” (“*EU national*”) yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o’r UE;

mae “gwybodaeth” (“*information*”) yn cynnwys dogfennau;

ystyr “hawl i breswyllo’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw hawl sy’n codi o dan

(1) Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi ei sefydlu o dan Erthygl 162 o’r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

(2) 1990 p. 6; a ddiddymwyd gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), Atodlen 4, gydag arbedion *gweler* Gorchymyn Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) 1998 (O.S. 1998/2004) (C. 46) ac a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1158, Atodlen 4, paragraff 5(2)(e).

(3) O.S. 1990/1506 (G.I. 11), a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/274 (G.I. 1), Erthygl 43 ac Atodlen 5, Rhan II, O.S. 1996/1918 (G.I. 15), Erthygl 3 a’r Atodlen ac O.S. 1998/258 (G.I. 1), Erthyglau 3 i 6 ac a ddirymwyd, gydag arbedion, gan Rh. St. (G.I.) 1998 Rhif 306.

(4) 1980 p. 44.

(5) O.S. 1998/1760 (G.I. 14) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(6) 2015 dccc 1.

(7) Gorchmn. 9171.

(8) Gorchmn. 3906 (allan o brint).

Gyfarwyddeb 2004/38 i breswyllo yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr “llofnod electronig” (“*electronic signature*”) yw cymaint o unrhyw beth ar ffurf electronig ag sydd—

- (a) wedi ei ymgorffori mewn unrhyw gyfathrebiad electronig neu ddata electronig neu sydd fel arall wedi ei gysylltu'n rhesymegol â hwy; a
- (b) yn honni ei fod wedi ei ymgorffori neu wedi ei gysylltu felly at ddiben cael ei ddefnyddio i gadarnhau dilysrwydd y cyfathrebiad neu'r data, cyfanrwydd y cyfathrebiad neu'r data, neu'r ddau;

mae i “myfyriwr cymwys” (“*eligible student*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 3;

ystyr “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” (“*person with leave to enter or remain*”) yw person (“A” yn y diffiniad hwn)—

- (a) sydd—
 - (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn cymhwyso i'w gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn; neu
 - (ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn;
- (b) y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
- (c) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(1)) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; a

(1) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Ceiswyr, etc) 2004 (p. 19), Atodlenni 2 a 4, Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran

- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i A gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros;

ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” (“*person granted stateless leave*”) yw person—

- (a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo; a

- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;

ystyr “rheolau mewnfudo” (“*immigration rules*”) yw'r rheolau a osodir gerbron y Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(1);

ystyr “Rheoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017” (“*the 2017 Master's Degree Loans Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(2);

ystyr “Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2017” (“*the 2017 Student Support Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017(3);

ystyr “Rheoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2018” (“*the 2018 Student Support Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018(4);

ystyr “sefydliad preifat” (“*private institution*”) yw sefydliad nad yw'n cael ei gyllido'n gyhoeddus;

ystyr “Ynysoedd” (“*Islands*”) yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu bod cymhwyster yn gymhwyster cyfatebol neu uwch—

- (a) os oes gan y myfyriwr cymwys gymhwyster addysg uwch o unrhyw sefydliad pa un a yw yn y Deyrnas Unedig ai peidio; a
- (b) os yw'r cymhwyster y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) yn radd ddoethurol ôl-raddedig o sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu os yw o lefel academaidd sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cyfateb i gymhwyster y mae'r cwrs dynodedig yn

9, O.S. 2010/21 a Deddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9, Rhan 4.

(1) 1971 p. 77.

(2) O.S. 2017/523 (Cy. 109), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169) ac O.S. 2018/277 (Cy. 53).

(3) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/191 (Cy. 42).

(4) O.S. 2018/191 (Cy. 42).

arwain ato neu'n uwch na'r cymhwyster hwnnw.

(3) Penderfynir ar flwyddyn academiaidd, mewn cysylltiad â chwrs, fel a ganlyn—

nodi'r cyfnod yng Ngholofn 2 o'r Tabl y mae'r flwyddyn academiaidd yn dechrau ynddo mewn gwirionedd;

y flwyddyn academiaidd yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y dyddiad a bennir yn y cofnod yng Ngholofn 1 o'r Tabl sy'n cyfateb i'r cyfnod a nodir yng Ngholofn 2.

Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at "blwyddyn academiaidd" yn gyfeiriad at y flwyddyn y penderfynir arni yn unol â'r paragraff hwn.

Tabl

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Dyddiad dechrau'r Y cyfnod y mae'r flwyddyn academiaidd at ddibenion y Rheoliadau hyn</i>	<i>flwyddyn academiaidd yn dechrau ynddo</i>
1 Medi	Ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr
1 Ionawr	Ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill
1 Ebrill	Ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf
1 Gorffennaf	Ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst

RHAN 2

CYMHWYSTRA

Myfyrwyr cymwys

3.—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig mewn cysylltiad â chwrs dynodedig yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn ac yn unol â hwy.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) i (9), mae person yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig os, wrth asesu cais y person i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig o dan reoliad 9, yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod y person yn dod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1.

(3) Nid yw person ("A") yn fyfyrwr cymwys—

- (a) os yw A wedi cyrraedd 60 oed ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd y mae'r cwrs dynodedig yn dechrau ynddi;
- (b) os yw A wedi torri unrhyw rwymedigaeth i ad-dalu unrhyw fenthyciad;
- (c) os yw A wedi cyrraedd 18 oed ac nad yw wedi cadarnhau unrhyw gytundeb ar gyfer benthyciad a wnaed gydag A pan oedd A o dan 18 oed;
- (d) os yw A, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi dangos drwy ei ymddygiad nad yw'n addas i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig;
- (e) os yw A yn garcharor, oni bai ei fod yn garcharor cymwys;
- (f) os yw A wedi ymrestru ar gwrs sy'n—
 - (i) cwrs dynodedig o dan reoliad 5 (cyrsiau dynodedig), 66 (cyrsiau dysgu o bell dynodedig) neu 83 (cyrsiau rhan-amser dynodedig) o Reoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2017 ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer y cwrs hwnnw;
 - (ii) cwrs dynodedig o dan reoliad 4 (cyrsiau dynodedig) o Reoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017 ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer y cwrs hwnnw;
 - (iii) cwrs dynodedig o dan reoliad 5 (cyrsiau dynodedig) o Reoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2018 ac yn cael cymorth o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer y cwrs hwnnw;
- (g) os yw A eisoes wedi cael cymhwyster cyfatebol neu uwch;
- (h) os yw A eisoes wedi ymrestru ar gwrs dynodedig ac yn cael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig o dan y Rheoliadau hyn ar gyfer y cwrs hwnnw;
- (i) os, yn ddarostyngedig i baragraff (9), yw A wedi cael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig yn flaenrol o dan y Rheoliadau hyn;
- (j) os rhoddwyd i A neu os talwyd iddo mewn perthynas ag A yn ymgymryd â'r cwrs—
 - (i) bwrsari gofal iechyd;

- (ii) unrhyw lwfans o dan Reoliadau Lwfansau Myfyrwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth (Yr Alban) 2007(1);
- (iii) unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a wneir o dan adran 67(4)(a) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(2) ac eithrio i'r graddau y mae A yn gymwys i gael y taliad hwnnw mewn cysylltiad â threuliau teithio;
- (iv) unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal o ddisgrifiad tebyg a wneir o dan adran 116(2)(a) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(3) ac eithrio i'r graddau y mae A yn gymwys i gael y taliad hwnnw mewn cysylltiad â threuliau teithio;
- (k) os, yn ddarostyngedig i baragraff (9), yw A wedi cael benthyciad yn flaenorol mewn cysylltiad â chwrs ac eithrio o dan y Rheoliadau hyn, pan ddarparwyd y benthyciad hwnnw o gronfeydd a ddarperir gan awdurdod llywodraeth o fewn y Deyrnas Unedig;
- (l) os yw A, mewn perthynas â'r cwrs, yn cael unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal sy'n cael ei dalu o gronfeydd a ddarperir—
 - (i) gan Gyngor Ymchwil;
 - (ii) gan, neu ar ran, Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig(4); neu
- (m) os rhoddwyd i A neu os talwyd iddo, mewn perthynas â'r cwrs, unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal a wneir o dan Gynllun KESS 2.

(4) Pan fo'r myfyriwr cymwys yn ymgymryd â chwrs dynodedig sy'n gwrs dysgu o bell, nid yw'r myfyriwr yn cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y myfyriwr yn ymgymryd â'r cwrs yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, pa un a yw'r cwrs yn gwrs dynodedig ar y dyddiad hwnnw neu'n cael ei ddynodi ar ddyddiad diweddarach.

(1) O.S.A. 2007/151, fel y'i diwygiwyd gan O.S.A. 2007/503, O.S.A. 2008/206, O.S.A. 2009/188, O.S.A. 2009/309, O.S.A. 2012/72, O.S.A. 2013/80, O.S.A. 2016/82 ac O.S.A. 2017/180.

(2) 2000 p. 14. Diwygiwyd adran 67(4)(a) gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2), adran 185, Atodlen 3, Rhan 2, paragraffau 40 a 43(d).

(3) 2016 dccc 2.

(4) Mae Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig yn gorff corfforaethol a sefydlwyd gan adran 91 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29). Mae adrannau 95 i 98 o'r Ddeddf honno yn darparu i Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig wneud trefniadau ar gyfer arfer ei swyddogaethau ar ei ran.

(5) At ddibenion paragraff (4), mae person (“A”) i’w drin fel pe bai’n ymgymryd â’r cwrs yng Nghymru ar gyfer unrhyw gyfnod—

- (a) pan fyddai A wedi bod yn ymgymryd â’r cwrs yng Nghymru oni bai am y ffaith bod—
 - (i) A,
 - (ii) priod neu bartner sifil A,
 - (iii) rhiant A,
 - (iv) pan fo A yn berthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A, yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon fel aelod o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron; neu
- (b) pan fo A yn cael ei drin fel pe bai’n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn rhinwedd paragraff 1(4) o Atodlen 1 ar sail cyflogaeth dros dro sy’n dod o fewn paragraff 1(5)(a) o Atodlen 1.

(6) Mae myfyriwr cymwys yn peidio â bod yn gymwys i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig mewn cysylltiad â chwrs dysgu o bell os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y myfyriwr yn ymgymryd â’r cwrs y tu allan i’r Deyrnas Unedig er gwaethaf a yw Gweinidogion Cymru wedi ystyried yn flaenorol fod y myfyriwr hwnnw yn ymgymryd â’i gwrs o fewn y Deyrnas Unedig.

(7) Nid yw paragraff (6) yn gymwys i berson sy’n cael ei drin fel pe bai’n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd paragraff 1(4) o Atodlen 1 ar y sail bod cyflogaeth dros dro yn dod o fewn paragraff 1(5)(a) o Atodlen 1.

(8) At ddibenion paragraff (3)(b) ac (c), ystyr “benthyciad” yw benthyciad a wneir o dan unrhyw ddarpariaeth o’r ddeddfwriaeth ar fenthyciadau i fyfyrwyr.

(9) Caiff Gweinidogion Cymru farnu bod person a ddisgrifir ym mharagraff (3)(i) neu (3)(k) yn fyfyrwr cymwys pan fo Gweinidogion Cymru o’r farn nad oedd y person wedi gallu cwblhau’r cwrs yr oedd y benthyciad blaenorol yn ymwneud ag ef o ganlyniad i resymau personol anorchfygol.

(10) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond arfer eu disgrisiwn o dan baragraff (9) unwaith mewn cysylltiad â myfyriwr penodol.

Cyrsiau dynodedig

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), mae cwrs yn gwrs dynodedig at ddibenion adran 22(1) o Ddeddf 1998 a rheoliad 3—

- (a) os yw cyfnod arferol y cofrestrriad ar gyfer y cwrs yn para am—
 - (i) dim llai na thair blynedd academiaidd; a
 - (ii) dim mwy nag wyth mlynedd academiaidd;
 - (b) os yw'n un o'r canlynol—
 - (i) yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl gan sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus;
 - (ii) yn cael ei ddarparu gan sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus sydd yn y Deyrnas Unedig ar ran sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus; neu
 - (iii) yn cael ei ddarparu gan sefydliad a gyllidir yn gyhoeddus ar y cyd â sefydliad sydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
 - (c) os yw'n cael ei ddarparu i raddau helaeth yn y Deyrnas Unedig; a
 - (d) os yw'n gwrs—
 - (i) sy'n arwain at radd ddoethurol a roddir neu sydd i'w roi gan gorff sy'n dod o fewn adran 214(2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(1); a
 - (ii) y mae'r addysgu a'r goruchwyllo sy'n ffurfio'r cwrs wedi eu cymeradwyo gan y corff hwnnw.
- (2) At ddibenion paragraff (1)(b) ac (c)—
- (a) mae cwrs yn cael ei ddarparu gan sefydliad os yw'n darparu'r addysgu a'r goruchwyllo sy'n ffurfio'r cwrs, pa un a yw'r sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb â'r myfyriwr i ddarparu'r cwrs ai peidio;
 - (b) mae cwrs yn cael ei ddarparu i raddau helaeth yn y Deyrnas Unedig pan fo o leiaf hanner yr addysgu a'r goruchwyllo sy'n ffurfio'r cwrs yn cael ei ddarparu yn y Deyrnas Unedig;
 - (c) bernir bod prifysgol ac unrhyw goleg cyfansoddol neu sefydliad cyfansoddol sydd o natur coleg prifysgol yn cael eu cyllido'n gyhoeddus os yw naill ai'r brifysgol neu'r coleg cyfansoddol neu'r sefydliad cyfansoddol yn cael ei chyllido neu ei gyllido'n gyhoeddus;
 - (d) ni fernir bod sefydliad yn cael ei gyllido'n gyhoeddus dim ond am ei fod yn cael arian o gronfeydd cyhoeddus gan gorff llywodraethu—

(1) 1988 p. 40; diwygiwyd adran 214(2) gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13), adran 93 ac Atodlen 8 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 53.

- (i) sefydliad addysg uwch yn unol ag adran 65(3A) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(1);
- (ii) darparwr addysg uwch cymwys fel sefydliad cysylltiedig cymhwysol yn unol ag adran 39 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017(2); ac
- (e) ni fernir bod cwrs yn cael ei ddarparu ar ran sefydliad addysgol a gyllidir yn gyhoeddus pan fo rhan o'r cwrs yn cael ei darparu gan sefydliad preifat.

(3) Caiff y cwrs dynodedig fod, ond nid oes angen iddo fod, yn gwrs dysgu o bell.

(4) Nid yw cwrs yn gwrs dynodedig at ddibenion rheoliad 3 os yw'n cael ei gydnabod yn gwrs dynodedig at ddibenion—

- (a) rheoliadau 5 neu 83 o Reoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2017;
- (b) rheoliad 4 o Reoliadau Benthyciadau at Radd Feistr 2017;
- (c) rheoliad 5 o Reoliadau Cymorth i Fyfyrrwyr 2018.

(5) At ddibenion adran 22 o Ddeddf 1998(3) a rheoliad (3), caiff Gweinidogion Cymru ddynodi cyrsiau addysg uwch nad ydynt wedi eu dynodi o dan baragraff (1).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu neu atal dros dro ddynodiad cwrs sydd wedi ei ddynodi o dan baragraff (5).

Cyfnod cymhwystra

5.—(1) Mae myfyriwr yn cadw ei statws fel myfyriwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig hyd nes bod y statws yn terfynu yn unol â'r rheoliad hwn neu reoliad 3.

(2) Y cyfnod y mae myfyriwr cymwys yn cadw'r statws y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw'r "cyfnod cymhwystra".

(1) 1992 p. 13; mewnosodwyd adran 65(3A) gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p. 30), adran 27 ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 122(1) ac Atodlen 11, paragraff 15(1) a (6). Er gwaethaf y diwygiad hwnnw, mae O.S. 2018/245 yn darparu, ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau 1 Ebrill 2018 ac yn gorffen 31 Gorffennaf 2019, fod adran 65(1) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai paragraff 15 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 wedi cael ei gychwyn ond fel pe bai'r cyfeiriad at "matters within the responsibility of the Higher Education Funding Council for England" yn adran 62(6)(a) o'r Ddeddf 1992 honno yn gyfeirid at "matters within the responsibility of the Office for Students and, where applicable, United Kingdom Research and Innovation". Mae'r Swyddfa Fyfyrrwyr yn gorff gorfforaethol a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

(2) 2017 p. 29. Nid yw'r ddarpariaeth hon mewn grym eto.

(3) 1998 p. 30.

(3) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau a ganlyn a rheoliad 3, mae cyfnod cymhwysra myfyriwr cymwys ("A") yn terfynu—

- (a) ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd y mae cyfnod arferol y cofrestriad ar gyfer cwrs dynodedig A yn dod i ben ynddi; neu
- (b) pan fo traethawd ymchwil cychwynnol A mewn perthynas â'r cwrs hwnnw yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod academiaidd perthnasol, pa un bynnag yw'r cynharaf.

(4) Mae cyfnod cymhwysra A yn terfynu—

- (a) pan fydd A yn tynnu'n ôl o'i gwrs dynodedig o dan amgylchiadau pan na fo Gweinidogion Cymru yn gorfod, o dan reoliad 6, drosglwyddo statws A fel myfyriwr cymwys i gwrs arall; neu
- (b) pan fydd A yn cefnu ar ei gwrs dynodedig neu'n cael ei ddiarddel ohono.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu'r cyfnod cymhwysra pan fo A wedi dangos drwy ei ymddygiad nad yw'n addas i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod A wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan y Rheoliadau hyn neu ei fod wedi darparu gwybodaeth sy'n anghywir o ran manylyn perthnasol, caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau gweithredu a ganlyn y maent yn ystyried eu bod yn briodol o dan yr amgylchiadau—

- (a) terfynu cyfnod cymhwysra A;
- (b) penderfynu nad yw A yn cymhwyso mwyach i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig;
- (c) trin unrhyw fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig a delir i'r myfyriwr fel gordaliad y caniateir ei adennill o dan reoliad 18.

(7) Pan fo'r cyfnod cymhwysra yn terfynu cyn diwedd y flwyddyn academiaidd y mae myfyriwr yn cwblhau'r cwrs dynodedig ynddi, caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, adnewyddu'r cyfnod cymhwysra am unrhyw gyfnod y maent yn penderfynu arno.

Trosglwyddo statws

6.—(1) Pan fo myfyriwr cymwys ("A") yn trosglwyddo o gwrs dynodedig ("yr hen gwrs") i gwrs dynodedig arall ("y cwrs newydd"), rhaid i Weinidogion Cymru drosglwyddo statws A fel myfyriwr cymwys i'r cwrs newydd—

- (a) pan fo Gweinidogion Cymru yn cael cais gan y myfyriwr cymwys i wneud hynny;
- (b) pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod un neu ragor o'r seiliau dros drosglwyddo ym mharagraff (2) yn gymwys; ac
- (c) pan na fo'r cyfnod cymhwystra wedi terfynu.

(2) Y seiliau dros drosglwyddo yw—

- (a) bod A, ar argymhelliad yr awdurdod academaidd, yn rhoi'r gorau i'r hen gwrs ac yn dechrau ymgymryd â'r cwrs newydd yn yr un sefydliad; neu
- (b) bod A yn dechrau ymgymryd â'r cwrs newydd mewn sefydliad arall.

(3) Pan fo A yn trosglwyddo o dan baragraff (1), mae hawlogaeth gan A, mewn cysylltiad â'r cwrs newydd, i gael gweddill y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig, os oes unrhyw swm yn weddill, yn unol â rheoliad 14 a, phan fo'n berthnasol, reoliad 17, mewn cysylltiad â'r hen gwrs.

Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod cwrs

7. Pan fo un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 8 yn digwydd yn ystod cwrs myfyriwr, caiff myfyriwr gymhwyso i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig, ar yr amod bod y myfyriwr yn cydymffurfio â'r darpariaethau gwneud cais a nodir yn Rhan 3.

Digwyddiadau

8. Y digwyddiadau yw—

- (a) bod cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;
- (b) bod y myfyriwr, neu ei briod, ei bartner sifil, ei riant, priod ei riant neu bartner sifil ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur neu'n dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (c) bod gwladwriaeth yn ymaelodi â'r UE pan fo'r myfyriwr yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn o'r wladwriaeth honno;
- (d) bod y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn UE;
- (e) bod y myfyriwr yn ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (f) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcidd;
- (g) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 7(1)(a) o Atodlen 1;

- (h) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd; neu
- (i) bod y myfyriwr yn cychwyn cwrs dynodedig ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs dynodedig am fod yr awdurdod academaidd perthnasol wedi caniatáu i'r myfyriwr gychwyn y cwrs ar y dyddiad dechrau diweddarach hwn.

RHAN 3

GWNEUD CAIS AM GYMORTH

Ceisiadau am fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig

9.—(1) Nid yw person yn cymhwyso i gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig fel myfyriwr cymwys mewn perthynas â chwrs dynodedig oni bai bod y person yn gwneud cais am y benthyciad hwnnw.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1)—

- (a) bod ar y ffurf honno a chynnwys yr wybodaeth honno a bennir gan Weinidogion Cymru;
- (b) dod gydag unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru; ac
- (c) cyrraedd Gweinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a bennir yn rheoliad 11.

Penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais

10.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad ar gais o dan reoliad 9.

(2) Caiff y camau hynny gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth bellach sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am benderfyniad ar gais o dan reoliad 9.

Terfynau amser

11.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i gais o dan reoliad 9 gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na diwedd y nawfed mis o flwyddyn academaidd y cwrs y mae cyfnod arferol y cofrestriad yn dod i ben ynddi.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i gais i ddiwygio swm y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig o dan reoliad 13(3) gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na diwedd y nawfed mis o

flwyddyn academaidd y cwrs y mae cyfnod arferol y cofrestriad yn dod i ben ynddi.

(3) Nid yw paragraffau (1) neu (2) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried, ar ôl rhoi sylw i amgylchiadau'r achos penodol, na ddylai'r terfyn amser fod yn gymwys ac, yn yr achos hwnnw, rhaid i'r cais gyrraedd Gweinidogion Cymru heb fod yn hwyrach nag unrhyw ddyddiad a bennir ganddynt yn ysgrifenedig.

Gofyniad i ymrwymo i gontract ar gyfer benthyciad

12.—(1) Ni chaiff myfyriwr cymwys gael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig oni bai bod y myfyriwr yn ymrwymo i gontract ar gyfer y benthyciad â Gweinidogion Cymru.

(2) O ran y contract—

- (a) rhaid iddo fod ar y ffurf ac ar y telerau, a
- (b) caiff fod yn ofynnol iddo gael ei lofnodi yn y modd (gan gynnwys ar ffurf electronig),

a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff y contract ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr cymwys ad-dalu benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig drwy ddull penodol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cytundeb y myfyriwr ynghylch y dull ad-dalu yn ofynnol, cânt gadw yn ôl unrhyw daliad o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig hyd nes bod y myfyriwr yn darparu'r hyn y gofynnwyd amdano.

RHAN 4

Y BENTHYCIAD

Swm benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig

13.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff person wneud cais am fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig o hyd at £25,000 tuag at gostau ymgymryd â chwrs dynodedig.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 17(5), pan fo carcharor cymwys yn gwneud cais am fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig, ni chaiff swm y benthyciad fod yn fwy na'r lleiaf o'r canlynol—

- (a) y ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r cwrs, a
- (b) £25,000.

(3) Ac eithrio pan fo rheoliad 17(5) a (6) yn gymwys, caiff myfyriwr cymwys wneud cais i Weinidogion Cymru i ddiwygio swm y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig y mae'r myfyriwr wedi gwneud cais amdano, ar yr amod—

- (a) nad yw cyfanred y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig y gwneir cais amdano yn fwy na'r symiau cymwysadwy a nodir ym mharagraffau (1) a (2);
- (b) bod cais o'r fath yn cael ei wneud yn unol â rheoliad 11(2).

(4) Os yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu o dan reoliad 10 fod y ceisydd yn fyfyrwr cymwys, rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r swm y mae'r myfyrwr cymwys yn cymhwyso i'w gael yn unol â rheoliad 14.

Talu benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig

14.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig y mae myfyrwr yn cymhwyso i'w gael o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) naill ai fel cyfandaliad neu mewn rhandaliadau; a
- (b) ar unrhyw adegau, ac mewn unrhyw fodd, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud taliadau drwy drosglwyddo'r taliadau i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, cânt ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwr cymwys ddarparu manylion unrhyw gyfrif o'r fath yn y Deyrnas Unedig y caniateir i daliadau gael eu gwneud iddo.

(3) Os yw'r gofyniad a ddisgrifir ym mharagraff (2) wedi ei osod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig hyd nes bod y myfyrwr cymwys wedi cydymffurfio.

(4) Yn achos carcharor cymwys, rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig, y mae carcharor cymwys yn cymhwyso i'w gael, i'r sefydliad y mae'r carcharor cymwys yn atebol i wneud taliad o'r ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r cwrs dynodedig iddo neu i unrhyw drydydd parti y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol at ddiben sicrhau y telir y ffioedd hynny i'r sefydliad perthnasol.

(5) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) ni chânt wneud taliad o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig sy'n fwy na £10,609 mewn cysylltiad ag unrhyw un flwyddyn academaidd o gwrs dynodedig myfyrwr cymwys;
- (b) rhaid iddynt, wrth benderfynu ar swm y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig y mae myfyrwr cymwys yn cymhwyso i'w gael, ddiystyru unrhyw flynyddoedd academaidd a gwblhawyd.

(6) Yn y rheoliad hwn, ystyr “blynyddoedd academiaidd a gwblhawyd” yw blynyddoedd academiaidd y cwrs dynodedig a gwblhawyd gan y myfyriwr cymwys cyn i Weinidogion Cymru gael cais y myfyriwr o dan reoliad 9(1).

(7) Rhaid i'r awdurdod academiaidd perthnasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny, ddarparu i Weinidogion Cymru y dyddiad—

- (a) y mae cwrs dynodedig myfyriwr cymwys yn dechrau arno; a
- (b) y mae cyfnod arferol y cofrestrriad ar gyfer y cwrs hwnnw yn dod i ben arno.

(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig mewn cysylltiad â blwyddyn academiaidd o gwrs dynodedig myfyriwr cymwys oni bai eu bod wedi cael, mewn cysylltiad â'r flwyddyn honno, gan yr awdurdod academiaidd perthnasol gadarnhad (ar unrhyw ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru)—

- (a) nad yw'r myfyriwr, mewn cysylltiad â'r cwrs dynodedig, yn cael unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal sy'n cael ei dalu o gronfeydd a ddarperir—
 - (i) gan Gyngor Ymchwil;
 - (ii) gan, neu ar ran, Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig;
- (b) bod y myfyriwr yn bresennol ar y cwrs dynodedig neu'n ymgymryd ag ef, neu ei fod yn parhau i fod yn bresennol ar y cwrs hwnnw neu'n parhau i ymgymryd ag ef (fel sy'n gymwys);
- (c) bod o leiaf hanner yr addysgu a'r oruchwyliaeth sy'n ffurfio'r cwrs dynodedig yn cael ei ddarparu yn y Deyrnas Unedig;
- (d) bod yr awdurdod academiaidd yn ystyried y bydd yn bosibl i'r myfyriwr gwblhau'r cwrs dynodedig o fewn cyfnod arferol y cofrestrriad ar gyfer y cwrs;
- (e) na roddwyd i'r myfyriwr neu na thalwyd iddo, mewn cysylltiad â'r cwrs dynodedig, unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal a wneir o dan Gynllun KESS 2.

(9) Nid yw'n ofynnol i awdurdod academiaidd ddarparu'r cadarnhad a ddisgrifir ym mharagraff (8)(a) os nad yw'n gallu gwneud hynny.

(10) Pan fo digwyddiad a grybwyllir ym mharagraff (11) yn digwydd mewn cysylltiad â myfyriwr cymwys (“A”), rhaid i'r awdurdod academiaidd perthnasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y digwyddiad—

- (a) hysbysu Gweinidogion Cymru; a

- (b) darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol am y digwyddiad y mae'r awdurdod academaidd yn meddwl y gall fod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(11) Y digwyddiadau yw—

- (a) bod yr awdurdod academaidd yn dod yn ymwybodol bod A, mewn cysylltiad â'i gwrs dynodedig, yn cael unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal sy'n cael ei dalu o gronfeydd a ddarperir—
 - (i) gan Gyngor Ymchwil;
 - (ii) gan, neu ar ran, Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig;
- (b) bod A yn tynnu'n ôl o'i gwrs dynodedig, neu'n cael ei atal dros dro neu ei ddiarddel ohono, neu os yw fel arall yn absennol;
- (c) nad yw'r awdurdod academaidd yn ystyried mwyach ei bod yn bosibl i A gwblhau ei gwrs dynodedig o fewn cyfnod arferol y cofrestrriad ar gyfer y cwrs hwnnw;
- (d) bod A yn cyflwyno ei draethawd ymchwil cychwynnol mewn cysylltiad â'i gwrs dynodedig cyn i gyfnod arferol y cofrestrriad ar gyfer y cwrs hwnnw ddod i ben; ac
- (e) bod yr awdurdod academaidd yn dod yn ymwybodol i unrhyw lwfans, bwrsari neu ddyfarndal a wneir o dan Gynllun KESS 2 gael ei roi i A neu ei dalu iddo, mewn cysylltiad â chwrs dynodedig A.

(12) At ddibenion paragraffau (8)(d) ac (11)(c), rhaid i'r awdurdod academaidd roi sylw i—

- (a) unrhyw gynnydd yn y dwysedd astudio a fyddai'n ofynnol er mwyn i'r myfyriwr gwblhau'r cwrs o fewn cyfnod arferol y cofrestrriad;
- (b) unrhyw rannau o'r cwrs y bu'n ofynnol i'r myfyriwr eu haildrodd.

Darparu rhif yswiriant gwladol y Deyrnas Unedig

15.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn amod o'r hawlogaeth i gael taliad o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig fod rhaid i fyfyrwr cymwys ddarparu iddynt ei rif yswiriant gwladol yn y Deyrnas Unedig.

(2) Os yw'r amod hwnnw wedi ei osod, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad o'r benthyciad hyd nes bod y myfyriwr cymwys wedi cydymffurfio ag ef, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, oherwydd amgylchiadau eithriadol, y byddai'n briodol gwneud taliad er na chydymffurfiwyd â'r amod.

Absenoldeb o gwrs neu anallu i'w gwblhau

16.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (6), os yw Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o dan reoliad 14(10) neu baragraff 2(a) i (c) o Atodlen 2 am fyfyrwr cymwys (“A”) ynglŷn â'r canlynol—

- (a) absenoldeb A o'i gwrs dynodedig; neu
- (b) anallu A i gwblhau ei gwrs dynodedig o fewn cyfnod arferol y cofrestriad ar gyfer y cwrs hwnnw,

ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliad pellach o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig.

(2) Caniateir gwneud taliad pellach er gwaethaf hysbysiad o'r fath os, ym marn Gweinidogion Cymru, byddai'r taliad yn briodol o dan yr holl amgylchiadau.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo—

- (a) Gweinidogion Cymru wedi cael hysbysiad mewn perthynas â myfyrwr cymwys (“A”) sy'n dod o fewn paragraff (1)(a); a
- (b) A yn ailgychwyn ei gwrs.

(4) Rhaid i A—

- (a) hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod wedi ailgychwyn ei gwrs; a
- (b) darparu manylion i Weinidogion Cymru ynghylch hyd ac achos absenoldeb blaenorol A o'r cwrs hwnnw.

(5) Rhaid i'r awdurdod academiaidd perthnasol hysbysu Gweinidogion Cymru os, yn dilyn hysbysiad a roddir i Weinidogion Cymru o dan reoliad 14(10) mewn cysylltiad â rheoliad 14(11)(c), nad yw'n ystyried mwyach nad yw'r myfyrwr yn gallu cwblhau'r cwrs dynodedig o fewn cyfnod arferol y cofrestriad ar gyfer y cwrs hwnnw.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o dan baragraffau (4) neu (5), rhaid iddynt ailgychwyn talu'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig yn unol â rheoliad 14 os, ym marn Gweinidogion Cymru, ydynt yn ystyried y byddai'n briodol o dan yr holl amgylchiadau.

Effaith dod, neu beidio â bod, yn garcharor cymwys

17.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo myfyrwr cymwys sy'n cael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig yn dod yn garcharor cymwys ac yn parhau i ymgymryd â chwrs dynodedig.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) addasu taliad o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig yn y dyfodol er mwyn i gyfanswm y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig a ddyfernir beidio â bod yn fwy

na'r swm y mae hawlogaeth gan y myfyriwr, fel carcharor cymwys, i'w gael o dan reoliad 13(2); a

(b) talu unrhyw swm sy'n weddill o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig, yn unol â rheoliad 14.

(3) Mae paragraffau (4) i (6) yn gymwys pan fo carcharor cymwys ("A") sy'n cael benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig yn peidio â bod yn garcharor cymwys ac yn aros yn fyfyriwr cymwys, ac yn parhau i ymgymryd â chwrs dynodedig.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu'r swm sy'n weddill o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig, neu randaliadau o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig yn y dyfodol, os oes rhai, yn unol â rheoliad 14.

(5) Pan fyddai A wedi cymhwyso i gael swm uwch o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig oni fyddai A wedi bod yn garcharor cymwys, caiff A, yn ddarostyngedig i baragraff (6), wneud cais am i swm y benthyciad gael ei gynyddu.

(6) Yr uchafswm cynnydd ym menthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig A y caiff A wneud cais amdano o dan baragraff (5) yw'r swm a gyfrifir drwy gyfeirio at y fformiwla a ganlyn—

(F-R) x T

M

pan fo—

F yn gyfwerth â'r swm y byddai A wedi cymhwyso i'w gael pe na bai A wedi bod yn garcharor cymwys;

R yn gyfwerth â'r swm y mae A yn cymhwyso i'w gael fel carcharor cymwys;

T yn nifer y diwrnodau o gyfnod arferol y cofrestriad ar gyfer y cwrs sy'n weddill pan yw A yn peidio â bod yn garcharor cymwys gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae A yn peidio â bod yn garcharor cymwys; ac

M yn gyfanswm nifer y diwrnodau y mae cyfnod arferol y cofrestriad ar gyfer y cwrs yn para.

Gordaliadau o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig

18.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru adennill unrhyw ordaliad o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig oddi wrth—

(a) y sefydliad neu'r trydydd parti a gafodd arian y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig pan wnaed taliad i'r sefydliad hwnnw neu'r trydydd parti hwnnw; neu

- (b) y myfyriwr a gafodd y benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig.

(2) Rhaid i fyfyriwr, os yw Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, ad-dalu unrhyw swm o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig a delir i'r myfyriwr neu a delir mewn cysylltiad â'r myfyriwr, sydd am ba reswm bynnag yn fwy na swm y benthyciad y mae hawlogaeth gan y myfyriwr i'w gael.

(3) Caniateir adennill gordaliad o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig oddi wrth fyfyriwr o dan baragraff (1)(b) ym mha un bynnag neu ym mha rai bynnag o'r ffyrdd a ganlyn y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol o dan yr holl amgylchiadau—

- (a) drwy dynnu'r gordaliad o unrhyw swm o'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig sy'n weddill i'w dalu i'r myfyriwr neu mewn cysylltiad ag ef;
- (b) drwy dynnu'r gordaliad o unrhyw fath o grant neu fenthyciad sy'n daladwy i'r myfyriwr o bryd i'w gilydd yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998;
- (c) drwy ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr ad-dalu'r benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998;
- (d) drwy gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill i adennill gordaliad sydd ar gael iddynt.

RHAN 5

GOFYNION GWYBODAETH

Gofynion gwybodaeth

19.—(1) Mae Atodlen 2 yn gymwys mewn cysylltiad â darparu gwybodaeth gan geisydd a myfyriwr cymwys.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg ofyn i geisydd neu fyfyriwr cymwys am wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol i adennill benthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ar unrhyw adeg ofyn i geisydd neu fyfyriwr cymwys am gael gweld ei gerdyn adnabod cenedlaethol dilys, ei basbort dilys a ddyroddir gan y wladwriaeth y mae'n wladolyn ohoni neu ei dystysgrif geni.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn am wybodaeth o dan y rheoliad hwn, caiff Gweinidogion Cymru gadw'n ôl unrhyw daliad o fenthyciad at radd ddoethurol ôl-raddedig hyd nes bod y ceisydd neu'r

myfyriwr cymwys yn darparu'r hyn y gofynnwyd amdano neu'n darparu eglurhad boddhaol am beidio â chydymffurfio â'r cais.

Kirsty Williams

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o
Weinidogion Cymru
23 Mai 2018

ATODLEN 1 Rheoliadau 3 ac 8

MYFYRWYR CYMWYS

RHAN 1

Dehongli

1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) (oni nodir fel arall) yw—

- (a) mewn perthynas â gweithiwr trawsffiniol AEE, gweithiwr mudol AEE, person hunangyflogedig trawsffiniol AEE neu berson hunangyflogedig AEE—
 - (i) priod y person neu ei bartner sifil;
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion priod neu bartner sifil y person sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person; neu
 - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;
- (b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd—
 - (i) priod y person neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;
- (c) mewn perthynas â gwladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38—
 - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu

- (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (d) mewn perthynas â gwladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38—
 - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn;
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu
 - (iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;
- (e) mewn perthynas â gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 10—
 - (i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu
 - (ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—
 - (aa) o dan 21 oed; neu
 - (bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr “Ardal Economaidd Ewropeaidd” (“*European Economic Area*”) yw'r ardal a ffurfir gan y gwladwriaethau AEE;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (“*Swiss Agreement*”) yw'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chydffederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symudiad Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999⁽¹⁾ ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr “gweithiwr” (“*worker*”) yw gweithiwr o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr “gweithiwr mudol AEE” (“*EEA migrant worker*”) yw gwladolyn AEE sy'n weithiwr, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

(1) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t. 6.

ystyr “gweithiwr trawsffiniol AEE” (“*EEA frontier worker*”) yw gwladolyn AEE sydd—

- (a) yn weithiwr yng Nghymru; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “gwladolyn AEE” (“*EEA national*”) yw gwladolyn gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig;

ystyr “person cyflogedig” (“*employed person*”) yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd” (“*Swiss employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd” (“*Swiss frontier employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

- (a) yn berson cyflogedig yng Nghymru; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”) yw—

- (a) mewn perthynas â gwladolyn AEE, person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd; neu
- (b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig AEE” (“*EEA self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd” (“*Swiss self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig trawsffiniol AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw gwladolyn AEE sydd—

- (a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru; a

- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

- (a) yn berson hunangyflogedig yng Nghymru; a
- (b) yn preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth gwladwriaeth AEE, ac eithrio'r Deyrnas Unedig, ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y wladwriaeth AEE honno, yn ôl y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "settled" gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(1).

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae "plentyn" ("*child*") i'w ddehongli yn unol â hynny.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu'r Ynysoedd, o ganlyniad i fod wedi symud o un arall o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd—

- (a) â'r cwrs dynodedig; neu
- (b) gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, â chwrs yr ymgymrodd y myfyriwr ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs dynodedig,

i'w ystyried yn berson sy'n preswyllo fel arfer yn y lle y mae'r person wedi symud ohono.

(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("A" yn yr is-baragraff hwn) i'w drin fel rhywun sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci pe bai A wedi bod yn preswyllo felly oni bai am y ffaith bod—

- (a) A;
- (b) priod neu bartner sifil A;
- (c) rhiant A; neu
- (d) pan fo A yn berthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r

(1) 1971 p. 77; mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

Ynysydd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

(5) At ddibenion is-baragraff (4), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysydd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

- (a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath; a
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath; ac
- (c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath.

(6) At ddibenion yr Atodlen hon mae ardal—

- (a) nad oedd gynt yn rhan o'r UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond
- (b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r ardaloedd hyn,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

(7) At ddibenion yr Atodlen hon mae carcharor cymwys i'w ystyried fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y rhan o'r Deyrnas Unedig lle yr oedd y carcharor yn preswyllo cyn cael ei ddedfrydu.

RHAN 2

Categoriâu

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

2.—(1) Person sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio am y rheswm ei fod wedi ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) yn preswyllo fel arfer yng Nghymru;
- (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysydd drwy gydol y cyfnod o

dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a

- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato yn mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(4).

3. Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd ennill yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato yn is-baragraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd

4.—(1) Person—

- (a) sy'n ffoadur;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â bod yn preswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a

- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches, yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; ac
- (e) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd

5.—(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a)—(i) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
 - (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a)—(i) sy'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i briod neu i

bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;

(b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;

(c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a

(d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo.

Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd

6.—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgrisiwn, pan na wnaed cais am loches;

(c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a

(d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y

cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches,

yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (e) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

7.—(1) Person—

- (a) sydd—
 - (i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE;
 - (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
 - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii);
 - (iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE;
 - (v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd; neu
 - (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v);
- (b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod

cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
ac

- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth o dan y Rheoliadau hyn yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

8. Person—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar symudiad rhydd gweithwyr⁽¹⁾, fel y'i hestynnir gan Gytundeb yr AEE.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo yn rhywle arall

9.—(1) Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn gadael y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fydd tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (e) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (d), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod

(1) OJ Rhif L257, 19.10.1968, t. 2 (OJ/SE 1968 (II) t. 475).

o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswyllo os yw'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson sydd â hawl i breswyllo'n barhaol sydd ym mhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd â hawl i breswyllo'n barhaol, os yw'n mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir y mae'n wladolyn iddi neu y mae'r person y mae'n aelod o deulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn iddi.

Gwladolion UE

10.—(1) Person—

(a) sydd—

- (i) yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, ac eithrio person sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig nad yw wedi arfer hawl i breswyllo; neu
- (ii) yn aelod o deulu person o'r fath;
- (b) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4).

(3) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r UE ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn o'r wladwriaeth honno,

trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) i fod yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

(4) At ddibenion y paragraff hwn, mae gwladolyn o'r Deyrnas Unedig wedi arfer hawl i breswyllo os yw'r person hwnnw wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig.

11.—(1) Person—

- (a) sy'n wladolyn UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato ym mharagraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r UE ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) i fod yn wladolyn UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

Plant gwladolion Swisaidd

12. Person—

- (a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

- (d) mewn achos pan oedd ei breswyllo fel arfer, y cyfeirir ato yn is-baragraff (c), yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Plant gweithwyr Twrcaidd

13. Person—

- (a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

ATODLEN 2 Rheoliadau 16 a 19

GWYBODAETH

1. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael cais i wneud hynny, rhaid i bob ceisydd a myfyriwr cymwys ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn ofynnol gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn.

2. Rhaid i bob ceisydd a myfyriwr cymwys hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith a darparu'r manylion i Weinidogion Cymru os bydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn digwydd—

- (a) bod y ceisydd neu'r myfyriwr yn tynnu'n ôl o'i gwrs, yn cael ei atal dros dro ohono, yn cefnu arno neu'n cael ei ddiarddel ohono;
- (b) bod y ceisydd neu'r myfyriwr yn trosglwyddo i unrhyw gwrs arall yn yr un sefydliad neu mewn sefydliad gwahanol;
- (c) bod y ceisydd neu'r myfyriwr yn absennol o'r cwrs;
- (d) bod y mis ar gyfer dechrau ar y cwrs neu ei gwblhau yn newid;
- (e) bod cyfeiriad neu rif ffôn gartref neu yn ystod y tymor y ceisydd neu'r myfyriwr yn newid;
- (f) bod y ceisydd neu'r myfyriwr yn dod yn garcharor neu'n garcharor cymwys neu'n peidio â bod yn garcharor neu'n garcharor cymwys.

3. Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru ac, os ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei llofnodi gan y person sy'n ei darparu, mae llofnod electronig ar unrhyw ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

EXPLANATORY MEMORANDUM TO THE EDUCATION (POSTGRADUATE DOCTORAL DEGREE LOANS) (WALES) REGULATIONS 2018

The Explanatory Memorandum has been prepared by the Higher Education Division and is laid before the National Assembly for Wales under Standing Order 27.1.

Cabinet Secretary's declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Kirsty Williams AM
Cabinet Secretary for Education

23 May 2018

Description

The Education (Postgraduate Doctoral Degree Loans) (Wales) Regulations 2018 ('the Regulations') provide the basis for the system of financial support for students who are ordinarily resident in Wales (subject to some exceptions) and taking designated postgraduate doctoral degree courses in respect of academic years beginning on or after 1 August 2018. Support is provided through provision of loans.

Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

None.

Legislative background

Section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998 ('the 1998 Act') provides the Welsh Ministers with the power to make regulations authorising or requiring the payment of financial support to students studying courses of higher or further education designated by or under those regulations. In particular, this power enables the Welsh Ministers to prescribe amounts of financial support (grant or loan) and categories of attendance on higher education courses. This provision, together with sections 42(6) and 43(1) of the 1998 Act, provide the Welsh Ministers with the power to make the Regulations.

Section 44 of the Higher Education Act 2004 ('the 2004 Act') provided for the transfer to the National Assembly for Wales of the functions of the Secretary of State under section 22 of the 1998 Act (except insofar as they relate to the making of any provision authorised by subsections (2) (a), (c), (j) or (k), (3) (e) or (f) or (5) of section 22). Section 44 of the 2004 Act also provided for the functions of the Secretary of State in section 22(2) (a), (c) and (k) to be exercisable concurrently with the National Assembly for Wales.

The functions of the Secretary of State under sections 42(6) and 43(1) of the 1998 Act were transferred, so far as exercisable in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Each year, a number of functions of the Welsh Ministers in regulations made under section 22 of the 1998 Act are delegated to the Student Loans Company under section 23 of the 1998 Act.

This instrument will follow the Negative Resolution procedure.

Purpose and intended effect of the legislation

The Welsh Ministers intend to support students undertaking postgraduate doctoral degree courses. Postgraduate doctoral degrees are the highest academic qualification that an institution can award following an agreed course of study. The most common form of doctorate in the UK is the PhD or DPhil. Providing support for postgraduate doctoral degree study will ensure that finance is a less significant barrier to study, allowing students to pursue their studies to the very highest level. Increased high level skills for the economy in a way which provides value for money for the taxpayer, resulting economic growth and the value employers place on a highly skilled workforce provide the rationale for this support.

These regulations provide student support for students ordinarily resident in Wales (subject to some exceptions) studying postgraduate doctoral degree courses. The regulations apply to courses beginning on or after 1 August 2018 in line with the commitment made in the response to the Review of Higher Education and Student Finance ('the Diamond Review'). To qualify, a student must be an 'eligible student' studying a designated postgraduate doctoral degree course. The maximum amount of loan an eligible student can receive is £25,000 over the period of the doctoral course. The loan is intended as a contribution to the cost of study, rather than to specifically cover tuition fees or living costs. Students may use this to support their studies as they see fit.

Eligible prisoners may also apply for support. Support for eligible prisoners is limited to the lesser of the fee payable by the prisoner in respect of the course and £25,000.

Other key aspects are set out below:

- Available to those settled in the UK and ordinarily resident in Wales; to an EU national or family member of an EU national, to those with a residency status as a refugee, to stateless persons granted leave to

remain, or those with leave to enter or remain, including their family members who are ordinarily resident in Wales.

- Available to students up to 59 years of age on the first day of the course.
- Students must not have an equivalent qualification or a higher level qualification (including qualifications obtained outside the UK).
- Subject to one exception, students must not have had a doctoral loan from Welsh Ministers or another UK administration previously.
- To prevent duplication of funding, students must not be in receipt of certain other sources of funding related to their postgraduate doctoral degree course.
- Available for the study of postgraduate doctoral degree courses offered by providers based in the UK which meet certain designation criteria.
- Courses must be postgraduate doctoral degrees which may be full-time, part-time, or distance learning and which are between three and eight years in length.
- Loans are not means-tested.
- Payments to be made in instalments across the number of years of the doctoral programme.
- Payments to be made to the student upon confirmation of attendance by the relevant academic institution.

A similar support policy will be available in England from August 2018.

IMPLEMENTATION

The Regulations provide the basis for the implementation of the Welsh Ministers' policy for support for postgraduate doctoral degree study for courses starting in the 2018/19 academic year, which enables the Welsh Government's delivery partner (the Student Loans Company) to implement system changes, and allows applications for support to commence during 2018.

CONSULTATION

The postgraduate doctoral degree policy was consulted on between 8 December 2017 and 2 March 2018 (Support for doctoral study, WG33258). Details of the consultation are included in the Regulatory Impact Assessment section below.

REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

Options

Option 1: Do nothing

In the event of the Regulations not being made the principal implications are:

- there would be no student finance available to students who are ordinarily resident in Wales and who wish to study for a postgraduate doctoral degree and who do not secure competitively awarded studentships through established mechanisms; and
- such students would be disadvantaged compared to their counterparts from England.

Option 2: Make the Regulations

The support currently available for students wishing to study on a postgraduate doctoral degree course is generally in the form of fully funded scholarships and studentships, sponsored by research councils and other organisations, made available competitively to the strongest research proposals and most able students. Some students that are not successful in gaining a funded place choose to fund themselves through their doctoral studies. Making the Regulations will allow the Welsh Ministers to provide a loan to students who wish to study for a postgraduate doctoral degree, but have not obtained support through existing arrangements. It is proposed that repayment of the loan will be income contingent and ensures that only those that can afford to repay do so.

Costs and benefits

Option 1: Do nothing

Doing nothing would mean that no additional costs are incurred via the student support system. However, support that will be made available to students who are ordinarily resident in England will not be made available to students who are ordinarily resident in Wales and expected benefits to the economy not realised.

Option 2: Make the Regulations

Making the regulations will benefit those that do not have an alternative source of funding for their postgraduate doctoral degree studies and may otherwise not undertake such a course. Making the regulations will ensure parity of support between students from Wales and those from England. There is uncertainty around the size, characteristics and take-up behaviour among the eligible population. The eligible population has been estimated based on data from the Higher Education Statistics Agency Student Record for the 2016/17 academic year, using available variables relating to the eligibility criteria outlined above.

Around 200 new doctoral students are expected to be eligible for a loan in 2018/19, based on the latest population and existing funding routes. It is not known how many additional doctoral students will enrol as a result of the regulations being made. Forecasts for the introduction of postgraduate Master's loans in academic year 2017/18 assumed a 10% increase in participation. It is too early to draw any conclusion regarding the accuracy of this assumption and the context for the introduction of doctoral loans is not comparable with that for any other type of student loan previously introduced. This is because limited arrangements already (and will continue to) exist for the funding of the most competitive doctoral students and research projects. It is, therefore, difficult to estimate the scale of the anticipated increase in the number of doctoral students who will take out a loan.

Any additional demand, as a result of support being made available, could increase the estimate of the eligible number, which equates to between 15% and 20% of new doctoral research students. A 10% increase in demand (around 20 students on the basis of the estimated population) is within the inherent margin of uncertainty, with regards to eligibility and take-up. There is an equal gender split in the estimated eligible population. Around 90% are ordinarily resident in Wales, and the remainder are non-UK students from elsewhere in the EU, studying at universities in Wales. This estimate does not account for any effect on demand of the UK's exit from the EU.

Making the Regulations is intended to increase the number of students from Wales gaining postgraduate doctoral degrees. It is recognised that £25,000 is unlikely to alone be sufficient to cover all costs associated with a full doctoral study programme (tuition fees, living costs and research-related costs), which will be undertaken over a period of at least three years. As a comparison, Research Councils UK has announced a minimum doctoral stipend (in effect, the tax-free living costs allowance provided to research council funded

doctoral students) of £14,777, and an indicative fee level of £4,260¹, for the 2018/19 academic year. Over three years, these elements amount to almost £60,000 of funding. Whilst this is more generous than the doctoral loan, the loan will provide an alternative route to qualification for those who are not in receipt of the limited quantum of Research Council funding.

The subject profile of the estimated population eligible for doctoral loans is provided below (Table 1). Biological sciences are the largest subject area (16%), followed by Education (11%) and Subjects allied to medicine (10%).

Table 1: Subject profile of the estimated eligible population

Subject group	Proportion
Medicine and dentistry	6%
Subjects allied to medicine	10%
Biological sciences	16%
Agriculture and related subjects	2%
Physical sciences	5%
Mathematical sciences	1%
Computer science	2%
Engineering and technology	5%
Architecture, building and planning	4%
Social studies	8%
Law	4%
Business and administrative studies	6%
Mass communications and documentation	2%
Languages	7%
Historical and philosophical studies	6%
Creative arts and design	5%
Education	11%

Source: Welsh Government analysis of the HESA Student Record, 2016/17

The aim of the policy is to increase the number of individuals with high levels skills, who then contribute to the economy in a way which provides value for money for the taxpayer. The contribution to the economy is evidenced by

¹ <http://www.rcuk.ac.uk/media/news/180118/>

statistics on UK graduates from higher education, which demonstrates a clear advantage to doctorate leavers, compared with other postgraduate leavers, with respect to employment and average salaries. 86% of 2015/16 doctoral leavers were in employment (UK or overseas), compared with 81% of other postgraduates, six months after graduation. This difference largely reflects the higher proportion of other postgraduate leavers that go on to further study, rather than employment. More than 60% of 2015/16 doctoral graduates employed full-time were earning an annual salary of at least £30,000, compared with less than 50% of other postgraduate leavers, six months after graduation. Previous research has suggested an overall earnings premium of 9% for doctoral graduates, compared to those with a Masters degree².

Highly educated individuals are important to a modern knowledge-based economy, and wider benefits are expected to having more doctoral graduates in the workforce. The link between higher levels of educational attainment and increased productivity is well established, through both a direct effect on the individual's own capabilities and the indirect effect of facilitating innovation. Many doctoral graduates go on to use their skills within academia or research-intensive industrial occupations and some apply the skills gained through doctoral studies in a wide variety of other sectors and roles, which are highly valued by employers.

Age restriction

The Regulations restrict support to those under 60 years of age on the first day of the academic year in which the designated course starts. An age limit is discriminatory under the Equality Act 2010 and the European Convention on Human Rights (article 14 – prohibition on discrimination). Age discrimination can be justified if it meets a legitimate aim and is proportionate. The aim of the scheme is to increase, in the context of finite resources, high level skills for the economy. The Welsh Government considers that it is necessary to ensure value for money for the taxpayer and takes the view that the imposition of the age limit is rationally connected to that aim. To ensure value for money, sustainable funding is required and the age limit of 60 mitigates against the risk that loans are disproportionately taken out by older students who will be unlikely to repay the loan in full or make significant repayments and who would have a limited number of working years in which their skills would be available to the economy.

² <https://www.vitae.ac.uk/vitae-publications/reports/what-do-researchers-do-early-career-progression-2013.pdf/view>

Analysis by the Welsh Government indicates that, on average, a borrower entering repayment even at age 50 would not be expected to fully repay a £25,000 loan but such a borrower could conceivably continue to make an economic contribution for up to or over 15 years. A borrower beginning a new course at the age of 60 would not be expected to re-enter the workforce and become eligible to repay until they were aged at least 63, based on the minimum duration of study for a postgraduate doctoral degree. The average repayment estimated for a borrower entering repayment at age 63 is less than £6,500 (a 26% return), dropping to £5,000 by age 65 (a 20% return).

Although those aged 60 years and over increasingly remain in work, thereby making an economic contribution, it is nevertheless evident that employment falls off after age 60, from almost 80% of those aged 50–59, to around 50% for those aged 60–64, to around 10% for those aged 65 and over (source: employment rates for year ending 31 March 2016, Annual Population Survey, ONS).

The possibility of a less intrusive measure to achieve the Welsh Government's aim has been considered. The conclusion was that a system which required individual investigation and assessment would create a heavy administrative burden which could consume scarce resources. Such a system might also introduce scope for inconsistent decision-making.

Taking into account the evidence concerning not only repayment rates of loans but also employment rates (it is not the purpose of the loan to facilitate the uptake of doctoral degree courses by students who have no particular intention to return to the workplace), the Welsh Government considers that the age restriction strikes a fair balance and is justified.

Financial costs

The provision of doctoral loans will require loan cover (annually managed expenditure) from Her Majesty's Treasury. The estimated value of loan provision in the 2018-19 financial year is £0.8m, but there is uncertainty around potential demand and take-up. This figure is based on the estimated eligibility within the latest population; any increase in participation resulting from the availability of loans may increase the value of provision. For example, a 10% increase (in line with the forecasting assumption for the introduction of postgraduate Master's loans) would result in an estimated cost of £0.9m in 2018-19. A Resource Accounting and Budgeting charge (RAB) in the region of 35%, reflecting forecast non-repayment of doctoral loans, has been estimated. RAB is the amount of student loan paid out in a given year

that will ultimately not be repaid. Based on modelling, provision is made in the accounts to “write off” a proportion of the loans given to students during the given year. There is uncertainty around the RAB charge, relating to the number, characteristics and future earning potential of potential doctoral loan borrowers. The estimate provided would result in a 2018-19 financial year RAB cost of £0.3m, when applied to the estimated value of loan.

Costs will increase year on year while a full cohort eligible for doctoral loans phases in. A full cohort will take up to eight years to phase in (2025-26), and it is unclear whether demand will increase during that time. Based on the current estimated eligible population, a full cohort would require around £6m of loan cover, with an associated RAB cost of around £2m. These estimates could, however, be subject to marked change during the intervening time, as real data on demand and loan repayments become available.

This RIA is assuming that the relevant composite repayment regulations will be made by the Department for Education and Welsh Ministers in July 2018. Should composite repayment regulations not be in force by 1st August, then the rate of and threshold on repayment may be different from that stated for doctoral loan borrowers but only until the relevant repayment regulations do come into force.

An Equality Impact Assessment has been completed and is available on request from hepolicy@gov.wales

CONSULTATION

The proposed postgraduate doctoral degree policy was consulted on between 8 December 2017 and 2 March 2018 (*Support for doctoral study, WG33258*). A wide range of stakeholders were invited to respond to the consultation which generated 28 responses, consisting of 11 organisations and 17 individuals. A summary list of stakeholders invited to respond and those which responded is attached at Annex 1.

Stakeholders were generally positive about and welcomed the policy proposals. All but one respondent agreed that support should be provided for doctoral study and a number of key themes relating to the questions emerged. It was recognised that there were other sources of funding available for a limited number of courses but access was limited further due to the very competitive nature of application.

Respondents were aware that funding would be made available for English students in the 2018/19 academic year and welcomed the same opportunity for students in Wales. It was suggested that the policy could contribute to the expansion of Welsh medium courses over the course of time. A number of respondents indicated that the age restriction was not ideal but many understood the rationale provided in the document; a more detailed rationale for maintaining the restriction is set out above.

Responses to the consultation did not identify any significant concerns and as a result the policy remains largely unchanged from the original policy proposed in the consultation for the 2018/19 academic year.

COMPETITION ASSESSMENT

There is no wider impact on the competitiveness of business, charities or the voluntary sector in making these Regulations.

POST IMPLEMENTATION ASSESSMENT

The Regulations governing the student support system are revised annually and are subject to detailed review by both the Welsh Government and delivery partners.

SUMMARY

The making of these Regulations is necessary to establish the basis for the higher education student support system for students ordinarily resident in Wales and EU students who are starting a postgraduate doctoral degree course in the 2018/19 academic year.

Annex A

List of consultees:

Higher education institutions
Universities Wales
Further education colleagues in Wales
Colegau Cymru/ College Wales
NUS Wales
Student Loans Company
Higher Education Funding Council for Wales
UCAS
NIACE
NASMA
Charities with an interest in higher education
Other representative organisations with an interest in higher education
The general public

List of respondents:

Crocels Community Media Group
University of South Wales
UCAC Cymru
Cardiff University
Open University
Royal College of Nursing
HEFCW
University and College Union (Wales)
Universities Wales
Swansea University
Aberystwyth University
The general public

Eitem 3.1

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(1)(g) a (2) o Atodlen 2 i Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2018 Rhif (Cy.)

YR UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

**Rheoliadau Deddf Cyfraith sy'n
Deillio o'r Undeb Ewropeaidd
(Cymru) 2018 (Diddymu) 2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 ("y Ddeddf") ac maent wedi eu gwneud o dan adran 22 o'r Ddeddf. Mae adran 22 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu, drwy reoliadau, y Ddeddf neu unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Ymgwymerwyd ag asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Ddeddf. Roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol hwnnw yn cynnwys asesiad o'r opsiwn i barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i wella Bil yr UE (Ymadael) i adlewyrchu'r setliad datganoli yn well. Gan fod y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu'r opsiwn hwnnw, ceir gwybodaeth am effaith y Rheoliadau hyn yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwnnw. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol ar gael ar:
<http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld11449-em/pri-ld11449-em-w.pdf>.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(1)(g) a (2) o Atodlen 2 i Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2018 Rhif (Cy.)

**YR UNDEB EWROPEAIDD,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Cyfraith sy'n
Deillio o'r Undeb Ewropeaidd
(Cymru) 2018 (Diddymu) 2018**

Gwnaed

Yn dod i rym

3 Hydref 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 22 o Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018(1) ("y Ddeddf").

Yn unol â pharagraff 1(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â datganiad sy'n nodi barn Gweinidogion Cymru ynghylch a ddylai'r weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) o baragraff 1 o Atodlen 2 fod yn gymwys i'r offeryn hwn.

Yn unol â pharagraff 1(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, gosodwyd datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n esbonio pam y mae angen darpariaeth i addasu deddfwriaeth sylfaenol.

Yn unol â pharagraff 1(6) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i—

- (a) unrhyw sylwadau,

(1) 2018 dccc 3.

- (b) unrhyw benderfyniadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac
- (c) unrhyw argymhellion gan bwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft,

a wneir yn ystod y cyfnod o 60 o ddiwrnodau o ran y rheoliadau drafft⁽¹⁾.

Yn unol â pharagraff 1(7) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru wedi gosod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru—

- (a) sy'n datgan a gyflwynwyd unrhyw sylwadau, a
- (b) sydd, os cyflwynwyd unrhyw sylwadau, yn rhoi manylion y sylwadau hynny.

Yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, cymeradwywyd drafft o'r rheoliadau drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Hydref 2018.

Diddymu Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

2. Mae Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 wedi ei diddymu.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(1) Mae paragraff 1(16) yn darparu mai'r cyfnod o "60 o ddiwrnodau" mewn perthynas ag unrhyw reoliadau drafft yw'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cafodd y rheoliadau drafft eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae paragraff 1(17) yn darparu nad oes unrhyw ystyriaeth i'w rhoi i unrhyw amser pan yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018.

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018.

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

8 Mehefin 2018

1. Disgrifiad

Mae **Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018** ("Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE") yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiogelu cyfraith yr UE sy'n cwmpasu pynciau sydd wedi eu datganoli i Gymru wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sicrhau bod y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu'r pynciau hyn yn gweithio'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac ar ôl i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gael ei diddymu gan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ("y Bil i Ymadael â'r UE").

Mae'r fersiwn ddrafft o **Reoliadau Deddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018 (Diddymu) 2018** ("y Rheoliadau") wedi eu cyflwyno o dan adran 22 o'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. Maent yn diddymu'r Ddeddf honno yn llawn yn dilyn y Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y Bil i Ymadael â'r UE¹, ynghyd â chytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"), ar 15 Mai 2018, i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Bil hwnnw.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/intergovernmental-agreement-on-the-european-union-withdrawal-bill>

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Mae paragraff 1(1)(g) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn darparu y bydd y weithdrefn uwch, sydd i'w gweld ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn gymwys i'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 22. Mae paragraff 1(5) yn darparu ymhellach y bydd y weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) yn gymwys i reoliadau drafft i'w gwneud o dan adran 22.

Rhaid i'r rheoliadau drafft, felly, gael eu gosod gerbron y Cynulliad am 60 diwrnod (heb gynnwys unrhyw gyfnod pan fo'r Cynulliad wedi'i ddiddymu neu yn ystod toriad am fwy na phedwar diwrnod). Ar ddiwedd y 60 diwrnod hynny, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i unrhyw sylwadau, penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad ac unrhyw argymhellion gan bwyllgor y Cynulliad sydd wedi cael y gwaith o adrodd ar y rheoliadau drafft.

Os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno cadarnhau fersiwn ddrafft o'r rheoliadau ar ôl i'r cyfnod o 60 diwrnod ddod i ben, rhaid iddynt gyflwyno datganiad gerbron y Cynulliad yn nodi a gafodd unrhyw sylwadau eu gwneud, ac os cafodd sylwadau eu gwneud, dylid cynnwys eu manylion.

Ar ôl i'r datganiad hwn gael ei gyflwyno, caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau fersiwn ddrafft o'r rheoliadau os caiff ei chymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.

3. Cefndir deddfwriaethol

Pasiwyd y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE gan y Cynulliad ar 21 Mawrth a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 6 Mehefin 2018. Mae adran 22 o'r Ddeddf hon yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddiddymu, drwy reoliadau, y Ddeddf ei hun neu unrhyw un o'i darpariaethau.

Fel y nodwyd uchod, mae paragraff 1(1)(g) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn darparu y bydd y weithdrefn uwch, sydd i'w gweld ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn berthnasol i'r rheoliadau a wneir o dan adran 22. Ar ben hynny, mae is-baragraff (2) o baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o reoliadau o'r fath gerbron y Cynulliad ynghyd â datganiad yn amlinellu eu barn ynghylch a ddylai'r weithdrefn yn is-baragraffau (6) i (14) o baragraff 1 fod yn gymwys.

O ganlyniad i hynny, yn unol ag is-baragraff (2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai'r weithdrefn uwch yn is-baragraffau (6) i (14) o baragraff 1 yn Atodlen 2 i'r Ddeddf hon fod yn gymwys i'r Rheoliadau. Mae'r farn hon yn adlewyrchu'r ddarpariaeth yn is-baragraff (5) o baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 22 fod yn ddarostyngedig i is-baragraffau (6) i (14).

Yn ôl is-baragraff (3) o baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, os yw'r rheoliadau drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad yn esbonio pam bod angen y ddarpariaeth. Drwy ddiddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, mae'r Rheoliadau yn addasu deddfwriaeth sylfaenol ac, yn unol â'r gofyniad i egluro pam fod angen y ddarpariaeth i addasu deddfwriaeth sylfaenol, mae Gweinidogion Cymru yn nodi bod hyn er mwyn cyflawni telerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y Bil i Ymadael â'r UE. Er gwybodaeth, mae paragraff 10 o'r Cytundeb yn nodi:

'As part of the implementation of this agreement, the governments agree that steps will be initiated to secure the repeal of Bills passed by the devolved legislatures as possible alternatives to the Withdrawal Bill, before the Withdrawal Bill receives Royal Assent.'

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Nodwyd yn glir yn *Diogelu Dyfodol Cymru* bod Llywodraeth Cymru yn parchu canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod angen deddfwriaeth i sicrhau bod y gyfraith yn parhau i weithredu'n effeithiol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Ar 13 Gorffennaf 2017, cyflwynwyd y Bil i Ymadael â'r UE yn Nhŷ'r Cyffredin². Roedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer diddymu Deddf 1972 a darpariaeth arall mewn perthynas ag ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Bil i Ymadael â'r UE yn—

- diddymu Deddf 1972 o'r "diwrnod ymadael";
- diogelu'r holl deddfwriaeth ddomestig a wnaed yn y DU i weithredu rhwymedigaethau'r UE (ee rheoliadau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf 1972 sy'n gweithredu cyfarwyddebau'r UE);
- troi'r corff o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys yn y DU (ee rheoliadau'r UE sy'n uniongyrchol gymwys yn y DU drwy weithrediad Deddf 1972) yn gyfraith ddomestig awdurdodaethau'r DU ("cyfraith y DU");
- corffori unrhyw hawliau eraill sydd ar gael mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd Deddf 1972, gan gynnwys yr hawliau sydd wedi eu cynnwys yng nghytuniadau'r UE, y gellir dibynnu arnynt ar hyn o bryd yn uniongyrchol yng nghyfraith y DU heb yr angen am fesurau gweithredu penodol;

² <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/europeanunionwithdrawal.html>

- darparu bod i gyfraith achosion Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd cyn i'r DU ymadael â'r UE yr un statws rhwymol, neu'r un statws o ran cynsail, yn llysoedd y DU â phenderfyniadau'r Goruchaf Lys.

Mae'r gyfraith sydd wedi ei throi neu ei diogelu gan y Bil i Ymadael â'r UE yn "gyfraith yr UE a ddargedwir". Diffinnir cyfraith yr UE a ddargedwir yng nghymal 7(7) o'r Bil i Ymadael â'r UE³ fel unrhyw beth sydd, ar neu ar ôl y diwrnod ymadael, yn parhau i fod yn gyfraith ddomestig neu ffurfio rhan ohoni yn rhinwedd cymal 2, 3 neu 5 neu is-gymal (3) neu (6) o gymal 7 o'r Bil i Ymadael â'r UE (gan y caiff y corff hwnnw o gyfraith ei ychwanegu ato neu ei addasu fel arall gan neu o dan y Bil i Ymadael â'r UE neu gan gyfraith ddomestig arall o bryd i'w gilydd). Felly, bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn cynnwys cyfraith ar bynciau sydd wedi eu datganoli i'r Cynulliad yn ogystal â chyfraith ar bynciau sydd wedi eu cadw yn ôl.

Ceir rhagor o fanylion am y Bil i Ymadael â'r UE yn y deunydd esboniadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU⁴.

Ar 12 Medi 2017, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad mewn cysylltiad â'r Bil i Ymadael â'r UE fel y'i cyflwynwyd ar 13 Gorffennaf 2017⁵. Roedd yn cynnwys rhestr lawn o gymalau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw. Nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu argymhell i'r Cynulliad roi cydsyniad i'r Bil i Ymadael â'r UE fel y'i drafftwyd wrth ei gyflwyno.

Nod Llywodraeth Cymru o'r cychwyn cyntaf oedd sicrhau Bil i Ymadael â'r UE diwygiedig a fyddai'n darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i fusnesau a dinasyddion am yr hawliau, y rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau a fydd yn bodoli pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, gan hefyd barchu'r setliad datganoli presennol.

O ganlyniad, ar 19 Medi 2017, anfonodd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban llythyr ar y cyd at Brif Weinidog y DU gan nodi cyfres o welliannau arfaethedig i'r Bil i Ymadael â'r UE. Eglurodd y llythyr y gallai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ystyried argymhell i'r Cynulliad ac i Senedd yr Alban roi cydsyniad pe gwnaed y gwelliannau i'r Bil hwnnw. Trafodwyd y gwelliannau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 4 a 12 Rhagfyr yn ystod y cyfnod Pwyllgor, ond ni chytunwyd arnynt. Ni chafodd unrhyw welliannau arwyddocaol i rannau perthnasol y Bil i Ymadael â'r UE eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU yn ystod y cyfnod Adrodd.

Ar 29 Ionawr, unwaith eto wrth gydweithio â Llywodraeth yr Alban, trefnodd Llywodraeth Cymru sesiwn frifio i aelodau Tŷ'r Arglwyddi ar y cysylltiad rhwng y Bil i Ymadael â'r UE a datganoli.

³Fel y'i diwygiwyd yn ystod y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi:

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2017-2019/0102/18102.pdf>

⁴<https://services.parliament.uk/Bills/2017-19/europeanunionwithdrawal/documents.html>

⁵<http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s500003886/Papur%207.pdf>

Cynhaliwyd sawl cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion rhwng mis Chwefror a mis Mai 2018 ar ffurf cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd Negodiadau'r UE. Roedd y cyfarfodydd hynny yn cynnwys trafodaeth ar y cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU ar y Bil i Ymadael â'r UE ac fe gytunwyd bod y tair llywodraeth yn rhannu'r nod o ddod i gytundeb ar y materion hyn. Cafodd gwaith dwys ei wneud y tu allan i'r cyfarfodydd hynny, ar lefel swyddogion a Gweinidogol, er mwyn negodi sefyllfa lle byddai modd dod i gytundeb o'r fath a lle byddai modd cyfaddawdu.

Cafodd Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ("Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE"), a elwir hefyd yn Fil Parhad, ei gyflwyno i'r Cynulliad ar 7 Mawrth 2018 yn dilyn cytundeb y Cynulliad i'w drin fel Bil Brys. Byddai cyflwyno'r Bil yn darparu opsiwn wrth gefn, er mwyn sicrhau parhad cyfreithiol deddfwriaeth yr UE ynghylch materion datganoledig yng Nghymru ac i ddiogelu datganoli os na fyddai modd dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ynghylch y Bil i Ymadael â'r UE.

Cwblhawyd Cyfnod 1 y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE ar 13 Mawrth, Cyfnod 2 ar 20 Mawrth a Chyfnodau 3 a 4 ar 21 Mawrth. Pasiwyd y Bil gyda 39 pleidlais o blaid a 13 yn erbyn (gydag un yn ymatal).

Ar ddiwedd y cyfnod hysbysu o bedair wythnos, cyfeiriodd y Twrnai Cyffredinol y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE i'r Goruchaf Lys er mwyn ystyried a oedd y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Cyfeiriodd y Twrnai Cyffredinol ac Adfocad Cyffredinol yr Alban Fil Parhad yr Alban yn yr un modd.

Yr opsiwn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio drwy gydol y broses oedd gweld Bil i Ymadael â'r UE oedd yn parchu datganoli. Parhawyd i negodi rhwng y Llywodraethau ac arweiniodd hynny at y Cytundeb Rhynglywodraethol, gyda Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwelliannau i'r Bil i Ymadael â'r UE fel rhan o'r Cytundeb hwnnw. Roedd hynny'n gynydd sylweddol o gymharu â'r sefyllfa gychwynol, ac yn amddiffyn buddiannau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gadarn. O ganlyniad, roedd modd i Lywodraeth Cymru argymhell i'r Cynulliad roi cydsyniad i'r Bil.

Arweiniodd y gwelliannau a'r Cytundeb Rhynglywodraethol at y canlynol:

- bydd yr holl bwerau a pholisïau datganoledig sy'n gymwys i Gymru bellach yn gorffwys yng Nghymru, oni bai am y rhai sydd wedi'u pennu i'w cadw yn ôl dros dro. Bydd y rheiny yn feysydd lle mae'r Llywodraethau'n cytuno bod angen fframweithiau cyffredin ar draws y DU yn y dyfodol â sail ddeddfwriaethol iddynt.
- proses ar gyfer ceisio cydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig ynglŷn â pha feysydd o gyfraith bresennol yr UE mewn meysydd polisi datganoledig fydd yn cael eu 'rhewi' wrth i'r fframweithiau cyffredin hyn ar gyfer y DU gyfan gael eu cytuno. Yn y meysydd cyfyngedig hyn, ni

fydd modd i'r Cynulliad na Gweinidogion Cymru wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol nes bod y fframweithiau wedi'u cytuno.

- os na fydd y Cynulliad yn cydsynio i 'rewi' meysydd penodol o gyfraith yr UE, bydd Llywodraeth y DU, dan amgylchiadau eithriadol, yn medru gofyn i Senedd y DU wneud hynny - ond bydd angen egluro i'r Senedd pam fod hyn yn angenrheidiol a darparu safbwynt Gweinidogion Cymru ynghylch pam nad oedd y cynnig yn dderbyniol i'r Cynulliad. Yna bydd y Senedd yn gwneud penderfyniad ar y mater.
- ymrwymiad diamwys na fydd Llywodraeth y DU yn gofyn i Senedd y DU wneud newidiadau deddfwriaethol i'r meysydd hyn yn y gyfraith mewn perthynas â Lloegr pan fyddant 'wedi'u rhewi'.
- cymal 'machlud' sy'n gwarantu mai dros dro yn unig y caiff y pwerau eu 'rhewi'.
- bydd Confensiwn Sewel (sef na fydd Llywodraeth y DU fel rheol yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad deddfwrfeydd datganoledig) yn gymwys i unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol i osod y fframweithiau newydd.

Mae'r Rheoliadau yn diddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda Llywodraeth y DU yn y Cytundeb Rhynglywodaethol.

5. Ymgynghori

Yr opsiwn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio oedd gweld Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU yn cael ei ddiwygio er mwyn iddo ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol yn dilyn y penderfyniad i ymadael â'r UE. Roedd y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn darparu system gyfreithiol amgen i'w defnyddio pe na bai'r gwelliannau priodol i barchu'r setliad datganoli yn y Bil yn cael eu sicrhau. Mae'r gwelliannau priodol hynny bellach wedi cael eu gwneud. Mae'r rheiny, ynghyd â'r ymrwymadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Rhynglywodaethol, yn golygu nad oes angen yr opsiwn wrth gefn o Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE bellach, ac fe benderfynwyd diddymu'r Ddeddf honno.

Gan ystyried yr amserlen dynn ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, ni fu'n bosib cynnal ymgynghoriad ar y Rheoliadau. Fodd bynnag, daeth y Cytundeb Rhynglywodaethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ganlyniad i drafodaethau a negodiadau dwys.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi, gan gynnwys *Diogelu Dyfodol Cymru a Brexit a Datganoli*, yn ogystal â chymryd camau i sicrhau bod rhanddeiliaid yn rhan o'r broses, er enghraifft drwy'r Grŵp Cynghori ar Ewrop a sefydlwyd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru. Mae'r adborth gan rhanddeiliaid wedi cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru,

ac yn parhau felly, wrth iddi lunio a gweithredu ei hymateb i benderfyniad y DU i ymadael â'r UE.

Bydd gwaith ymgynghori priodol yn digwydd ar reoliadau a wneir o dan y Bil i Ymadael â'r UE, a fydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol yn dilyn diddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd ar gyfer y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cynnwys tri opsiwn:⁶

Opsiwn 1 – Gwneud dim ac, o ganlyniad, defnyddio'r pwerau a ddarperir ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU (fel ag yr oedd ar adeg cyflwyno'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, cyn i'r gwelliannau gael eu gwneud iddo).

Opsiwn 2 – Parhau i geisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i wella Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) i adlewyrchu'r setliad datganoli yn well.

Opsiwn 3 – Cyflwyno'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) i ddiogelu cyfraith yr UE, fel y mae'n gymwys mewn perthynas â materion datganoledig, wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a darpariaethau cysylltiedig pellach.

Opsiwn 2 oedd yr opsiwn a ffafriwyd gan Lywodraeth Cymru, ac fe gafodd ei wireddu drwy'r Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y Bil i Ymadael â'r UE. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cynnwys datganiad ar gostau'r opsiwn hwn, ac nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol arall wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan nad yw'r wybodaeth ynghylch y costau hyn wedi newid ers cynnal yr Asesiad ar gyfer y Ddeddf.

Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf, er na fu'n bosib cynhyrchu amcangyfrif dibynadwy am gost pob opsiwn hyd yma, byddai'n rhesymol rhagdybio y byddai'r costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru ar eu hisaf dan Opsiwn 1 ac ar eu huchaf dan Opsiwn 3.

O ganlyniad, gellid rhagdybio yn rhesymol y byddai'r costau gweinyddu i Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno is-ddeddfwriaeth dan y Bil i Ymadael â'r UE diwygiedig (Opsiwn 2) yn is na'r is-ddeddfwriaeth dan Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE (Opsiwn 3).

⁶ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld11449-em/pri-ld11449-em-w.pdf>

7. Asesiadau Effaith

Cydraddoldeb / Plant a Phobl Ifanc

Cynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb⁷ ac ar Blant a Phobl Ifanc⁸ ar gyfer y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE.

Roedd yr asesiadau effaith hynny'n tynnu sylw at y ffaith bod cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE i'w chreu drwy reoliadau dan y Ddeddf, felly ni fyddai'r Ddeddf ei hun yn arwain yn uniongyrchol at newidiadau i gyfraith yr UE sy'n gymwys ar hyn o bryd yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu'r Ddeddf yn gyfan, ac ni fwriedir gwneud unrhyw reoliadau dan y Ddeddf cyn ei diddymu. Ni fydd y diddymu yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar unigolion, gan na fydd yn diddymu unrhyw hawliau y mae unigolion yn eu mwynhau ar hyn o bryd.

Roedd yr asesiadau effaith hynny yn cymryd i ystyriaeth bod y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cynnwys gofyniad i ddehongli cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn unol â Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE, o gymharu â'r Bil i Ymadael â'r UE a oedd ar y pryd yn darparu nad oedd y Siarter yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir. Roedd yr asesiadau yn dadansoddi'r posibilrwydd, i'r graddau yr oedd y pwerau dan y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael eu harfer i greu cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE, y gallai'r gofyniad i ddehongli'r gyfraith yn unol â'r Siarter liniaru unrhyw bosibilrwydd o golli hawliau o ganlyniad i agwedd y Bil i Ymadael â'r UE at y Siarter.

Fodd bynnag, ers pasio'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE mae'r Bil i Ymadael â'r UE wedi cael ei ddiwygio gan Dŷ'r Arglwyddi fel y byddai Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn ffurfio rhan o gyfraith ddomestig. Os bydd darpariaeth o'r fath yn parhau yn y Bil i Ymadael â'r UE, bydd y Siarter yn berthnasol ym mhob maes cyfraith yr UE a ddargedwir, nid dim ond y meysydd o gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig gan y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. Os bydd y gwelliant hwn (neu ffurf o'r gwelliant) yn aros yn y Bil, bydd yn mynd ymhellach o ran ymgorffori'r Siarter i gyfraith ddomestig na'r hyn fyddai wedi digwydd dan y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. Mae disgwyl i Dŷ'r Cyffredin ystyried y gwelliant hwn, ond os byddant yn gwyrddroi gwelliannau'r Arglwyddi, ni fydd y Siarter yn rhan o gyfraith ddomestig dan delerau'r Bil ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cynnydd y Bil i Ymadael â'r UE drwy'r Senedd, ac ystyried sut y byddai unrhyw newidiadau yn effeithio ar yr asesiadau sy'n berthnasol i'r Rheoliadau.

⁷ <https://gov.wales/docs/caecd/publications/180308-equality-impact-assessment-en.pdf>

⁸ <https://gov.wales/docs/caecd/publications/180308-children-impact-assessment-en.pdf>

Hawliau Dynol

Nid yw'r rheoliadau drafft yn codi unrhyw faterion mewn perthynas â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Ni fydd deddfu na diddymu'r Ddeddf yn arwain at unrhyw effaith uniongyrchol ar hawliau unigolion. Fodd bynnag, bydd diddymu'r Bil yn golygu y bydd y camau deddfwriaethol angenrheidiol i wneud newidiadau deddfwriaethol i gyfraith ddatganoledig yn dod o dan y Bil i Ymadael â'r UE. Llywodraeth y DU fydd yn bennaf gyfrifol am asesu effaith y Bil hwnnw ar hawliau dynol, ond bydd yn rhaid i bob cyfres o reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (a Gweinidogion y DU) gael eu hystyried yn unigol er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn.

Y Gymraeg

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg⁹ ar gyfer y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE. Roedd yn datgan y byddai dau o'r tri opsiwn dan ystyriaeth yn cael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg (Opsiwn 2 – Bil diwygiedig i Ymadael â'r UE – ac Opsiwn 3 – y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE). Is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud dan y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE fyddai wedi cynnig y potensial mwyaf i gynyddu swm y ddeddfwriaeth sydd ar gael yn Gymraeg, er enghraifft gan y byddai cyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE wedi bod ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd diwygio'r Bil i Ymadael â'r UE hefyd yn cynnig potensial am effaith gadarnhaol yn sgil y ffaith y byddai cyfran uwch o reoliadau ar gael yn ddwyieithog wrth i bwerau Gweinidogion Cymru ehangu. Byddai hyn yn cynnig mwy o gyfle i wneud cyfreithiau dwyieithog. Yn arbennig, gellid dewis ailddatgan cyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE i ddarparu eglurder a hygyrchedd, a fyddai'n golygu y byddai fersiwn cyfrwng Cymraeg o'r gyfraith yn cael ei darparu¹⁰.

Er na fydd diddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE o bosib yn darparu'r effaith fwyaf cadarnhaol ar y Gymraeg, mae'n cael ei ystyried fel yr ateb gorau yn gyffredinol ac mae'n cyfateb i'r opsiwn a ffafriwyd gan Lywodraeth Cymru o'r cychwyn – Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) diwygiedig sy'n parchu datganoli a darparu sicrwydd i fusnesau a phobl Cymru, fel y cyflawnwyd gan y Cytundeb Rhynglywodraethol a oedd hefyd yn cadarnhau y byddai camau'n cael eu cymryd i ddiddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE.

Cafodd effaith y Rheoliadau ar ddyletswyddau statudol Gweinidogion Cymru dan adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu gynlluniau llywodraeth leol, sector gwirfoddol a busnes dan adrannau 73, 74 a 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn eu tro eu hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r UE a'r Asesiadau Effaith cysylltiedig.

⁹ <https://gov.wales/docs/caecd/publications/180308-language-impact-assessment-cy.pdf>

¹⁰ Gweler paragraff 20(b) o Atodlen 7 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.2

SL(5)220 – Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) 2018 (Saesneg yn unig)

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Pysgota Anghyfreithlon, Heb ei Gofnodi a Heb ei Reoleiddio) 2009 (*Saesneg yn unig*) a Rheoliadau Pysgota Môr (Pwyntiau ar gyfer Meistri Cychod Pysgota) 2014 (*Saesneg yn unig*). Maent yn gweithredu darpariaethau Erthygl 38 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1005/2008, sy'n sefydlu system y Gymuned i atal, rhwystro a dileu achosion o bysgota anghyfreithlon, heb ei adrodd a heb ei rheoleiddio.

Y weithdrefn

Penderfyniad negyddol, cyfansawdd.

Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw'r offeryn wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, sy'n golygu bod y Rheoliadau hyn: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn datgan, oherwydd natur gyfansawdd y Rheoliadau, nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r Rheoliadau gael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – mae'r offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Mae cyfraith yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau orfodi rhai gweithgareddau pysgota môr sydd wedi'u gwahardd, fel mewnforio pysgod a ddaliwyd gan long pysgota o drydedd wlad nad yw'n cydweithredu. Ym mis Mawrth 2014, am y tro cyntaf, cyhoeddodd Cyngor yr Undeb Ewropeaidd restr o wledydd nad ydynt wedi cydweithio â'r UE mewn perthynas â physgota môr anghyfreithlon, heb ei gofnodi a heb ei reoleiddio. Y gwledydd ar y rhestr yw Belize, Teyrnas Cambodia a Gweriniaeth Gini.

Nodwyd nad oedd y gwledydd hyn yn cydweithredu ym mis Mawrth 2014. Nid yw'n amlwg pam ei bod wedi cymryd tan fis Mai 2018 i wneud y Rheoliadau hyn i orfodi gweithgareddau sydd wedi'u gwahardd yn erbyn y gwledydd hyn nad ydynt yn cydweithredu.



2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – mae'r offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Mae cymhwyso'r Rheoliadau hyn yn dibynnu ar ddiffiniadau fel "ardaloedd o fewn terfynau'r môr tiriogaethol cyfagos i Loegr" a "rhan o'r môr o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain sydd i'w drin fel cyfagos i Gymru" ac ati.

Er mwyn gweld beth yw union ystyr yr ardaloedd hyn, mae angen edrych ar sawl darn o ddeddfwriaeth a phlotio nifer fawr o gyfesurynnau.

Rydym yn argymhell y dylid cynnwys mapiau yn y Memoranda Esboniadol yn y dyfodol, er mwyn rhoi crynodeb sydyn o'r ardaloedd môr perthnasol.

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – mae'r offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Cododd rhai o'r newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau hyn o'r **pwyntiau adrodd technegol y cododd y Pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2015**. Er ein bod yn croesawu'r newidiadau hynny sy'n cael eu gwneud (mewn perthynas â Chymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac, yn rhannol, yr Alban), rydym yn nodi ei bod wedi cymryd bron tair blynedd a hanner i wneud y newidiadau.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu ac yn gorfodi rhwymedigaethau'r UE mewn perthynas â physgota môr, ac felly bydd y Rheoliadau hyn yn ffurfio rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin yn nodi bod "rheoli a chefnogi pysgodfeydd" yn faes polisi sy'n debygol o fod yn ddarostyngedig i reoliadau cymal 15 o dan Fil yr UE (Ymadael). Felly, mae'r gyfraith sy'n dod o dan y Rheoliadau hyn yn debygol o fod yn faes o gyfraith yr UE sy'n cael ei rewi tra bod fframweithiau cyffredin yn cael eu rhoi ar waith.

Ymateb y Llywodraeth

Ymateb i'r Pwyntiau Adrodd Craffu Technegol

Pwynt 1: Rheol Sefydlog 21.2 (ix) – nad yw'r offeryn wedi ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg

Gwneir y Rheoliadau ar sail gyfansawdd er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn eglur, yn hygyrch ac yn dryloyw i'r rheini y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'i ddarpariaethau.

Gan fod yr offeryn cyfansawdd hwn (sy'n diwygio dau offeryn blaenorol a wnaed ar sail gyfansawdd hefyd) yn ddarostyngedig i'w gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ogystal â Senedd y Deyrnas Unedig, ni chredir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog.

Ymateb i'r Pwyntiau Craffu ar sail Rhinweddau



1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – fod yr offeryn o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Pwynt 1.

Nodir y pwynt adrodd.

Yn ymarferol, cymharol fach yw'r tebygolrwydd y bydd y gwledydd nad ydynt yn cydymffurfio a restrwyd yn 2014 sydd â chysylltiad â'r Deyrnas Unedig, a hyd yn oed yn fwy felly o ran Cymru, yn pysgota'n anghyfreithlon.

Gan fod y risg mor isel, roedd yn briodol disgwyl i gael proses OS gyfansawdd rhwng Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn San Steffan. Pe byddai Llywodraeth Cymru wedi mentro ar wahân byddai'n golygu bod y ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn bodoli mewn dogfen ddeddfwriaethol ar wahân. Mae'n bosibl y byddai hynny'n ddryslyd i'r rheini y mae'n berthnasol iddynt. Mae'n bwysig yn awr bod deddfwriaeth yn cael ei deddfu er mwyn caniatáu i reoliadau'r UE gael eu trosi pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Pwynt 2.

Nodir y pwynt adrodd.

Yn y dyfodol bydd Memoranda Esboniadol yn cynnwys mapiau, fel yr awgrymir, mewn amgylchiadau tebyg.

Pwynt 3.

Nodir y pwynt adrodd.

Yn ymarferol, roedd gweithredu'r cynllun 'Points for Masters' wedi ei oedi ar lefel yr UE yn dilyn anghytuno ynglŷn â difrifoldeb, ac felly lefel y pwyntiau oedd yn cael eu pennu gan Aelod-wladwriaethau unigol am droseddau tebyg, ymysg pryderon nad oedd y sefyllfa yn deg ar bawb.

Yng ngoleuni'r amgylchiadau hyn a'r graddau y mae rheoliadau domestig a rheoliadau eraill yr EU yn gymwys i atal diffyg cydymffurfio â rheoliadau pysgodfeydd yn gyffredinol, roedd yn briodol aros am broses OS gyfansawdd rhwng Llywodraeth Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn San Steffan. Pe byddai Llywodraeth Cymru wedi mentro ar wahân byddai'n golygu bod y ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn bodoli mewn dogfen ddeddfwriaethol ar wahân. Mae'n bosibl y byddai hynny'n ddryslyd i'r rheini y mae'n berthnasol iddynt.

Mae'n bwysig yn awr bod deddfwriaeth yn cael ei deddfu er mwyn caniatáu i reoliadau'r UE gael eu trosi pan fydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mehefin, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau technegol a'r rhinweddau uchod. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig



Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



4.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru:

**Tystiolaeth Ysgrifenedig a gyflwynwyd
gan Lywodraeth Cymru**

Cynnwys

Cyflwyniad	1
<hr/>	
Rhan 1: Y cyfansoddiad a'r gyfraith	3
<hr/>	
Rhan 2: Plismona a chyfiawnder fel gwasanaethau cyhoeddus	8
<hr/>	
Casgliadau a'r ffordd ymlaen	11
<hr/>	
Atodiad	12
<hr/>	

Cyflwyniad

Gofynnwyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ystyried y cwestiynau oedd yn weddill ynglŷn â phlisma, y system gyfiawnder a'r awdurdodaeth gyfreithiol yng Nghymru nad oedd Deddf Cymru 2017 wedi mynd i'r afael yn briodol â nhw. Mae arwyddocâd cyfansoddiadol eang i'r materion cyfiawnder sy'n rhan o gylch gwaith y Comisiwn, ac mae'r ffaith bod cymhwysedd deddfwriaethol a chyfrifoldebau gweithredol dros blisma a chyfiawnder yng Nghymru yn faterion a gedwir yn ôl gan sefydliadau'r Deyrnas Unedig (DU) ar hyn o bryd yn cael effaith ar fawr ar y ffordd o lywodraethu yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth hon gan Lywodraeth Cymru yn rhoi asesiad cychwynnol o'r effaith honno ar y system o lywodraeth yng Nghymru, ar gysylltiadau rhynglywodraethol, ar gyfraith Cymru ac yn y pen draw ar y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i bobl Cymru.

Bu'n broses hir i ddatblygu system gynhwysfawr a sefydlog o lywodraeth i Gymru, ac nid ydyw wedi'i chwblhau eto. Gwelwyd bod yr hyn a ddechreuodd fel datganoli gweithredol a oedd yn gyfyngedig iawn ym 1999 wedi esblygu erbyn hyn. Erbyn hyn mae gennym ddeddfwrfa lawn, llywodraeth ar wahân sy'n atebol i'r ddeddfwrfa honno ac i bobl Cymru, ac mae gennym hefyd fodd o godi cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a buddsoddiad drwy drethi a benthyciadau. Fodd bynnag, o ystyried sefyllfa Cymru yng nghydestun domestig y DU a'r cyd-destun rhyngwladol, cyfyngedig yw'r setliad datganoli o hyd. Dyma'r union reswm, yn bennaf, pam mae datganoli yn gymhleth iawn yng Nghymru. Ni wnaeth Deddf Cymru 2017 ddatrys y cymhlethdod hwn fel yr obeithiwyd. Yn wir, gellid dadlau ei fod wedi cymhlethu'r sefyllfa ymhellach. Mae materion sy'n bodoli ers amser heb eu datrys o hyd ac, i ryw raddau, mae'r sefyllfa wedi gwaethgu.

Drwy symud o'r model rhoi pwerau i'r model cadw pwerau, amlygwyd gwendidau'r setliad datganoli. Gwendidau yw'r rhain sy'n deillio'n bennaf o ddymuniad Llywodraeth y DU i "ddiogelu" un awdurdodaeth gyfreithiol bresennol Cymru a Lloegr. Yn ei hanfod, ymddengys mai ymgais i gyfyngu ar yr ymwahanu rhwng

y gyfraith sy'n gymwys i Gymru a'r gyfraith sy'n gymwys i Loegr oedd y rhesymeg dros wneud hyn. Fodd bynnag, mae cyfraith Cymru a chyfraith Lloegr eisoes wedi ymwahanu a byddant yn parhau i wneud hynny. Mae hyn yn ganlyniad anorfod creu deddfwrfa i Gymru. Ni cheir bellach un corff unfurf o gyfraith, sy'n un o nodweddion sylfaenol awdurdodaeth gyfreithiol.

Dywedir yn aml mai'r ffaith bod Cymru a Lloegr yn rhannu un awdurdodaeth gyfreithiol yw'r rheswm pam nad yw plisma a'r system gyfiawnder (at ei gilydd) wedi eu datganoli i Gymru. Ond nid oes unrhyw reswm pam na ddylid datganoli'r materion hyn ac, yn wir, mae yna resymau darbwyllo pam y dylid gwneud hynny. Sefydlu system resymegol o lywodraeth i Gymru sy'n gallu gwella bywydau pobl Cymru ddylai fod yn sail i benderfyniadau ynghylch yr hyn y dylid ei ddatganoli i Gymru, neu na ddylid ei ddatganoli. Ni ddylid gwneud y fath benderfyniadau, fel sydd wedi digwydd yn rhy aml, ar sail yr hyn sydd wedi cael ei wneud yn y gorffennol. Hynodwyd sy'n deillio o ddiwyddiadau bron i bum can mlynedd yn ôl yw'r diffyg awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Dylanwadwyd yn ormodol hefyd ar y materion sydd wedi'u datganoli i Gymru gan yr hyn a gafodd ei ddatganoli i Swyddfa Cymru i gychwyn ryw hanner can mlynedd yn ôl.

Mae sybsidiaredd – y rhagdybiaeth mai dim ond y tasgau na ellir eu cyflawni'n effeithiol ar lefel fwy lleol y dylai llywodraeth ganolog ymgymryd â hwy – yn nodwedd gyffredin o lywodraethau datganoledig ledled y byd. O ganlyniad, yn gyffredinol, datganolir materion domestig fel darparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw plisma na'r system gyfiawnder yn eithriadau i hyn. I bob pwrpas, maent yn wasanaethau cyhoeddus sydd wedi eu datganoli bob amser. Mae mynd ati i chwilio am wahaniaethau rhwng y gwasanaethau cyhoeddus hynny sydd wedi eu datganoli a'r rheini nad ydynt wedi eu datganoli yn creu rhwystrau i'r cydweithio sy'n digwydd rhwng llywodraethau ac asiantaethau cyflenwi lleol, ac mae hynny'n niweidiol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol.

Tudalen y pecyn 79

Mae'r Dystiolaeth Ysgrifenedig hon yn ymchwilio ymhellach i'r materion hyn fel a ganlyn:

Mae **Rhan 1** yn edrych ar **gyfansoddiad a'r gyfraith** ac mae'n ystyried cymhlethdod y setliad datganoli, cysylltiadau rhynglywodraethol, yr awdurdodaeth gyfreithiol, mynediad at gyfiawnder a'r sector cyfreithiol yng Nghymru.

Mae **Rhan 2** yn edrych ar **blismona a chyfiawnder fel gwasanaethau cyhoeddus** ac mae'n ystyried sut y gellir sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi mewn modd cyson. Mae'r rhan hon yn amlinellu beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd i gefnogi gwasanaethau cyfiawnder a'r anawsterau a wynebir wrth wneud hynny o fewn setliad datganoli cyfyngedig, a'r cyfleoedd a fyddai'n codi pe byddai'r materion hyn yn cael eu datganoli.

Rhan 1: Y cyfansoddiad a'r gyfraith

Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn yn ystyried materion sy'n sylfaenol i'r cyfansoddiad ac i'r gyfraith. Bu'r broses o ddatganoli pwerau yng Nghymru yn anghonfensiynol, yn wahanol i'r Alban, er enghraifft. Mae wedi bod yn broses ddarniog, ad hoc, a feirniadwyd yn aml. Gwnaed gwelliannau sylweddol ers 1999, ond o ran cyfiawnder, yr awdurdodaeth gyfreithiol a'r gyfraith ei hun, mae trefniadau cyfansoddiadol Cymru yn dal i fod yn hynod anghonfensiynol, ac nid oes mo'u tebyg yn y byd.

Awdurdodaeth gyfreithiol

Mae'r un awdurdodaeth gyfreithiol a rennir gan Gymru a Lloegr yn hynafol. Mae'n deillio o'r cyfnod Tuduraidd, yn benodol o Ddeddfau Cyfreithiau yng Nghymru 1535 a 1542. Diben y Deddfau hyn, i bob pwrpas, oedd cymathu Cymru yn Lloegr at ddibenion llywodraethol, a thrwy hynny, geisio sicrhau unffurfiaeth wleidyddol, weinyddol, ieithyddol a chyfreithiol ar draws Cymru a Lloegr.

Nid yw'r unffurfiaeth hon yn bod bellach yn y cyfnod diweddar hwn, fodd bynnag. Gellir olrhain hanes datganoli gweinyddol, sy'n golygu polisi a gweinyddiaeth lywodraethol neilltuedig i Gymru, mor bell â sefydlu'r Swyddfa Gymreig ym 1965 o leiaf. Cafodd datganoli yng Nghymru ei ddemocrateiddio adeg sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, a chafodd y Cynulliad bwerau deddfu llawn yn dilyn y refferendwm yn 2011. Mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun, system o weinyddiaeth gyhoeddus neilltuedig ac mae'r Gymraeg wedi cael ei chydabod yn iaith swyddogol ag iddi yr un statws â'r Saesneg. Yn fwy sylfaenol eto, mae gan Gymru ei system wleidyddol, deddfwrfa a'i chyfreithiau ei hun. Fodd bynnag, ceir camagraff o hyd bod unffurfiaeth gyfreithiol yn bod ar draws Cymru a Lloegr. Yr un awdurdodaeth gyfreithiol sy'n cael ei rhannu gan Gymru a Lloegr – yr unig beth a etifeddwyd o'r Deddfau hynny sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg sy'n parhau hyd heddiw – sy'n gyfrifol am greu'r gamagraff hons.

Ond nid yw nodweddion sylfaenol awdurdodaeth gyfreithiol yn perthyn i awdurdodaeth gyfreithiol "Cymru a Lloegr":

- Nid yw "Cymru a Lloegr" yn un diriogaeth wleidyddol a daearyddol resymegol – mae gan Gymru ddeddfwrfa lawn ers 2011 ac nid yw'r cysyniad o "Gymru a Lloegr" yn bodoli bellach at unrhyw ddiben arall;
- Nid oes gan Gymru a Lloegr gorff unffurf o gyfraith sy'n ymestyn ar draws y diriogaeth honno – nid yw'n synhwyrol bellach i siarad am gyfraith Cymru a Lloegr, mae'r gyfraith sy'n gymwys i Gymru yn parhau i ymwahanu wrth gyfraith Lloegr ac mae'r mwyafrif helaeth o'r gyfraith sy'n gymwys i Gymru yn ddwyieithog.

Er gwaetha'r ffaith nad yw awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn addas i'r diben bellach, wrth ddatblygu'r hyn a ddaeth yn Ddeddf Cymru 2017 ceisiodd Llywodraeth y DU, ar ddechrau'r broses o leiaf, "ddiogelu'r" awdurdodaeth. Aed ati i wneud hynny drwy gyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol, mewn ymgais yn ôl pob tebyg, i gynnal corff unffurf o'r gyfraith, i ryw raddau o leiaf. Ond mae'r corff hwn o gyfraith eisoes yn amrywio o ran ei gynnwys, yn y ffordd y caiff ei gymhwyso ac o ran ei iaith. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud tua 4500 o Offerynnau Statudol ers 1999 ac mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi deddfu 56 o ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol hyd yma, a llawer ohonynt yn hir ac yn eang eu cynnwys.

Mae materion amgylcheddol yn un enghraifft o'r meysydd lle y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn hynod o weithgar wrth deddfu. Yn sgil datganoli, bu'n bosibl i'r Cynulliad gyflwyno, a hynny drwy amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth, fframwaith deddfwriaethol unigryw ar gyfer yr amgylchedd. Mae'r fframwaith hwn yn cyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol ac yn rhoi lle canolog i ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd wrth wneud penderfyniadau polisi yng Nghymru.

At hynny, er mwyn cefnogi dull integredig o reoli ein hamgylchedd, cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei greu a rhoddwyd i'r corff newydd hwn ddiben statudol newydd sy'n gyson â'r fframwaith deddfwriaethol, i gyflawni nodau llesiant. Felly, mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru yn awr yn wahanol iawn i'r fframwaith yn Lloegr. Er gwaethaf y gwahaniaethau amlwg, fodd bynnag, mae'r ddau fframwaith yn gweithredu o fewn yr un awdurdodaeth gyfreithiol, a bydd hyn yn cymhlethu'r sefyllfa'n fawr pan ddaw'n amser mynd i'r afael â chanlyniadau Brexit o safbwynt materion amgylcheddol.

Mae'n werth nodi hefyd fod cyfreithiau Cymru a Lloegr yn ymwahanu o ganlyniad i gyfreithiau a wnaed i Loegr yn unig. Mae'r "cyfreithiau Lloegr" sy'n cael eu creu (a phleidleisiau i Aelodau Seneddol Lloegr yn unig ar gyfer cyfreithiau Lloegr yn y Senedd) yn golygu bod achos yr un mor ddarbwyllol dros gael awdurdodaeth gyfreithiol (wirioneddol) ar wahân i Loegr.

Ceir awdurdodaeth gyfreithiol gyfatebol i gyd-fynd â phob deddfwrfa ar draws gwledydd y gyfraith gyffredin, ac eithrio un enghraifft. Cymru yw'r eithriad hwnnw – mae'n anomaledd. Ni fyddai creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru yn newid radical, yn syml, mater o fynd i'r afael yn briodol â goblygiadau'r hyn sydd eisoes wedi digwydd fyddai gwneud hyn. Dylid fod wedi gwneud hynny eisoes, a byddai'n ganlyniad naturiol y datganoli deddfwriaethol sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru. Felly, o safbwynt Llywodraeth Cymru, nid yw'r ddadl dros awdurdodaeth gyfreithiol neilltuedig i Gymru yn seiliedig ar arddel angen i sicrhau "tegwch" (mewn rhyw synnwyr) i Gymru – mae'n golygu sicrhau llywodraethu'n fwy effeithlon ac effeithiol ar ran pobl Cymru.

Cymhlethdod y setliad datganoli

Nid oes amheuaeth mai'r ffaith bod Cymru a Lloegr yn rhannu'r un awdurdodaeth gyfreithiol, a'r ffaith nad yw plismona a chyfiawnder, o ganlyniad, wedi eu datganoli, yw'r prif reswm sy'n parhau pam y mae setliad datganoli Cymru yn gymhleth. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017) yn cynnwys 44 o dudalennau o faterion a gedwir yn ôl a chyfyngiadau. Ar y llaw arall, 20 o dudalennau cyfatebol sydd yn Neddf yr Alban (fel y'i deddfwyd). Yr awdurdodaeth, a'r ffaith bod plismona a chyfiawnder yn faterion a gedwir yn ôl, yw'r unig reswm, fwy neu lai, am y gwahaniaeth hwn.

Yn ogystal â chymhlethdod y setliad (ac i'r perwyl hwn mae'r setliad yn fwy cymhleth eto ers symud o'r model rhoi pwerau i'r model cadw pwerau) mae goblygiadau ymarferol i hyn hefyd. Yn unol â'r egwyddor o sybsidiaredd, mae'r rhan fwyaf o faterion 'domestig' wedi cael eu datganoli i'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae eu pwerau hwythau, felly, yn llawer mwy hunangynhwysol ac mae llawer llai o berygl y byddant yn gwrthdaro â'r rheini a gedwir yn ôl gan Senedd y DU. I'r gwrthwyneb, yng Nghymru, mae'r ffin rhwng yr hyn sydd wedi ei ddatganoli a'r hyn nad ydyw wedi ei ddatganoli yn croesi pynciau 'domestig' gan greu penbleth a chymhlethdod a llesteirio cyfleoedd i weithio'n gydgyssylltiedig a llywodraethu da.

Yn yr adroddiad "*Achieving Political Decentralisation*"¹, dywed yr Institute for Government fod y DU yn un o'r gwledydd â'r lefel isaf o ddatganoli yn y byd. Mae'n honni bod **"Academics and think-tanks regularly argue that decentralisation could boost economic growth; better reflect differences in local identities and preferences; and allow more local variation and innovation in public services."**

Yn yr adroddiad hwnnw, mae'r Institute for Government yn edrych ar y ffordd orau o ddatganoli pwerau ac mae'n dweud ei bod wedi dod yn glir

¹ www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/DecentralisationPaper%20-%20FINAL_0.pdf

bod rhaid ystyried, wrth gynllunio polisi, agweddau ymarferol y byd go iawn o ran gweithredu. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at rwydwaith o rwystrau sy'n rhaid ei oresgyn cyn gallu datganoli'n effeithiol. Cyflwynir dadl o blaid datganoli set gynhwysfawr o bwerau, ac mae'n cyfeirio'n benodol at yr hyn y mae'n ei alw'n bum prif faes polisi lleol – plismona, cynllunio strategol, trafnidiaeth, sgiliau a thai.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad hefyd na ddylai'r hyn a wnaed yn y gorffennol gyfyngu ar syniadau ar gyfer diwygio newydd drwy ddatganoli, sy'n arbennig o addas yng nghyd-destun Cymru. Mae penderfyniadau ynglŷn â'r hyn y dylid ei ddatganoli ac na ddylid ei ddatganoli i Gymru yn cael eu gwneud yn rhy aml ar sail yr hyn a wnaed cyn hyn. Hyd yn oed heddiw, er gwaetha'r holl ddiwygio ers 1999, mae'r pynciau sydd wedi cael eu datganoli i Gymru yn cyfateb i raddau helaeth â'r hyn a oedd wedi cael ei ddatganoli i'r hen Swyddfa Gymreig.

Dylai'r pwerau a ddatganolir i Gymru fod yn rhesymegol a chynhwysfawr, yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen i fod yn llywodraeth effeithiol sy'n gwella bywydau'r bobl y mae'n ei gwasanaethu. Nid ddylai'r hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, nac awydd i ddiogelu sefydliadu a strwythurau'r DU, fod yn ystyriaeth wrth bennu'r pwerau hynny.

Yn fwy sylfaenol eto, system o lywodraeth a fyddai'n dod â'r cyfrifoldeb dros blismona a chyfiawnder yn agosach at y bobl fyddai orau ar gyfer amddiffyn ein democratiaeth a rheol y gyfraith. Byddai cymhwyso'r egwyddor o sybsidiaredd yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o faterion, a diddordeb mewn canlyniadau, yn lleol. Byddai'n creu system sy'n fwy hyblyg, ag iddi fwy o hygredd, ac a fyddai'n fwy parod i addasu. Dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth a Senedd y DU gyflwyno'r achos o blaid cadw'r cyfrifoldeb dros blismona a chyfiawnder yn San Steffan. Yn realistig, ni ellir gwneud y fath achos oherwydd mae'r materion hyn eisoes wedi cael eu datganoli i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ac i ddinas-ranbarthau yn Lloegr hyd yn oed i ryw raddau.

Hygyrchedd deddfwriaeth a rheol y gyfraith

Un o egwyddorion sylfaenol cynnal un awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a Lloegr yw unffurfiaeth gyfreithiol. Seilir awdurdodaeth ar y cysyniad bod y gyfraith yr un fath ym mhob cwr o'i thiriogaeth. Golyga hynny mai un corff o gyfraith a geir i Gymru a Lloegr. O ganlyniad, nid oes y fath beth â "chyfraith Cymru" ac (ar y sail honno), yng ngwir ystyr y term, nid oes ychwaith y fath beth â "chyfraith Lloegr".

Mae problemau ymarferol yn codi o hyn sy'n cael effaith ar gymhlethdod a hygyrchedd y gyfraith. Yn draddodiadol, rhannwyd deddfwriaeth yn y DU gan gyfeirio at ei "graddau", cysyniad sydd yn ei dro yn seiliedig ar yr awdurdodaeth gyfreithiol y caiff y ddeddfwriaeth effaith ynddi. Yn wir, dangos y gwahaniaeth rhwng un gyfraith a'r llall fel hyn yw un o ddibenion awdurdodaeth gyfreithiol.

Mae cyfraith sy'n ymestyn i'r Alban yn dod yn rhan o gyfraith yr Alban, ac mae cyfraith sy'n ymestyn i Ogledd Iwerddon yn dod yn rhan o gyfraith Gogledd Iwerddon. Ni all Deddf a chaiff ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, fodd bynnag, ymestyn i Gymru, dim ond i Gymru a Lloegr. Yn yr un modd, rhaid i Ddeddf Senedd y DU, y bwriedir iddi, dyweder, gael effaith ar awdurdodau lleol yn Lloegr yn unig ymestyn i Loegr a Chymru. O ganlyniad, mae pennu pa gyfraith sy'n cael **effaith** yng Nghymru, a pha gyfraith sy'n cael **effaith** yn Lloegr (ar wahân i'r diriogaeth y mae'n **ymestyn** iddi) yn gallu bod yn broses anodd, i gyfreithwyr hyd yn oed.

O ganlyniad, mae llyfr statud sydd eisoes yn gymhleth a hirfaith yn dod yn fwy cymhleth eto. Gall hyn achosi cryn broblemau yng nghyd-destun materion ehangach sy'n ymwneud â hygyrchedd cyfiawnder. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i unigolion gael mynediad at gyfiawnder er mwyn iddynt allu amddiffyn a gwireddu eu hawliau, a'r canlyniadau negyddol posibl, yn gymdeithasol, yn economaidd ac o safbwynt iechyd, pan nad yw hynny'n bosibl. Mae'r ffaith bod llai a llai yn derbyn cymorth cyfreithiol,

Tudalen y pecyn 83

ffioedd llysoedd a thriwlysoedd yn codi, nifer yr ymgyfreithwyr sy'n cynrychioli eu hunain yn y llys yn cynyddu, a bod llysoedd yn cau ac yn cael eu hadleoli yn cynrychioli newid yn y system gyfiawnder yn yr wyth blynedd ddiwethaf na welwyd mo'i debyg o'r blaen. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn hynod ymwybodol bod angen sicrhau bod y rheini sy'n destun cyfraith Cymru yn parhau i gadw ymwybyddiaeth a dealltwriaeth lawn ohoni.

Y 'swyddogaeth gyfiawnder' mewn llywodraeth

Mynegodd yr Arglwydd Thomas, yr Arglwydd Brif Ustus, bryderon am ddiffyg, yn ei eiriau ef, "swyddogaeth gyfiawnder" i Gymru:

"No one has really studied the problem of what has happened under the [Government of Wales] Act and there is no justice function that looks after Wales. By default the courts have put one in place, but there is not a justice function. The Welsh Government do not have justice as a competence and the Ministry of Justice has only just realised, despite our pressing it, that there is a problem."

Mae datgysylltiad amlwg rhwng y cyfansoddiad yn gwneud cyfreithiau i Gymru ar yr un llaw (rhywbeth sydd, wrth gwrs, wedi ei ddatganoli), a'u gweinyddu a'u gorfodi ar y llaw arall (materion nad ydynt wedi eu datganoli). Ni cheir unrhyw enghraifft arall, ym myd y gyfraith gyffredin o leiaf, lle nad yw'r ddeddfwrfa a'i gweithrediaeth yn gyfrifol am sut y mae ei chyfreithiau'n cael eu gweithredu mewn ymarfer gan yr heddlu a thrwy'r llysoedd. Mae cyfreithiau Cymru, fel pob cyfraith arall, yn creu hawliau a chyfrifoldebau y gall fod angen eu gorfodi, troseddau sy'n aml angen eu herlyn ac yn rhoi pwerau i'r heddlu.

Cyfrifoldeb sefydliadau eraill, yn benodol Swyddfa Gartref a Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth y DU, yw'r swyddogaethau sylfaenol hyn, sy'n rhan annatod o unrhyw broses ddeddfu. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw system

o lywodraeth arall lle y digwydda hyn. Mae hyn yn achosi dryswch, diffyg tryloywder ac atebolrwydd annelwig o ran gweithredu a gallai arwain at densiynau rhwng llywodraethau â'i gilydd. Pan fo un o Ddeddfau Cymru yn gwneud newidiadau eang i'r gyfraith, gallai hyn gael effaith sylweddol, er enghraifft, ar y system llysoedd. Gallai fod angen newid arferion mewn perthynas ag achosion Cymreig a gallai hyn arwain at gostau. O ganlyniad, efallai na fydd modd gorfodi'r Ddeddf a wneir yng Nghymru yn effeithiol oni cheir cytundeb ar drefniadau priodol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyntaf, a bydd pwysau, amserlenni a blaenoriaethau penodol yn gysylltiedig â hynny. Mae dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar Lywodraeth y DU i weithredu ei deddfwriaeth ei hun fel hyn yn afreolaidd ac nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Y llysoedd a'r farnwriaeth

Mae rheoli'r berthynas rhwng y llywodraeth a'r llysoedd a'r farnwriaeth yn rhan o'r "swyddogaeth farwnol" y cyfeirir ati gan yr Arglwydd Brif Ustus. Mae tensiynau yn gysylltiedig â'r mater hwn hefyd sydd wedi'u hachosi gan y rhaniad rhwng yr hyn sydd wedi ei ddatganoli a'r hyn nad yw wedi ei ddatganoli. Mae aelodau o'r farnwriaeth wedi bod yn ymwybodol ers amser o oblygiadau'r ymwahanu sydd wedi'i weld yn y gyfraith. Maen nhw wedi bod yn ymwybodol bod angen deall sut mae'r gyfraith yn datblygu yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y gyfraith gywir yn cael ei chymhwyso lle bo yna ymwahanu rhwng cyfreithiau. Ysgogodd yr Arglwydd Thomas welliannau yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus. Fodd bynnag, mae anawsterau'n parhau o ran cytuno pwy ddylai fod yn gyfrifol am faterion fel hyfforddiant ar y cyfreithiau Cymru newydd.

Mae'n bwysig nodi yn y cyd-destun hwn hefyd fod y ffaith mai un awdurdodaeth gyfreithiol sydd i Gymru a Lloegr yn golygu, mewn egwyddor o leiaf, fod angen i farnwr yn Newcastle wybod am

Tudalen y pecyn 84

fodolaeth a chynnwys Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, dyweder, (sy'n diwygio'n eang y gyfraith ar denantiaethau preswyl, ac sy'n gwahaniaethu'n fawr rhwng y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a honno sy'n gymwys yn Lloegr), fel sydd angen i farnwr yng Nghasnewydd. Mewn ymarfer, mae ymdrechion i hyfforddi barnwyr ar ddatblygiadau yng nghyfraith Cymru yn canolbwyntio ar farnwyr Cymru, ond, mewn gwirionedd, gan mai un awdurdodaeth gyfreithiol sydd, nid oes y fath beth â "barnwr Cymru".

Er mwyn creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, byddai angen llysoedd a barnwyr neilltuedig i Gymru ag arbenigedd yng nghyfraith Cymru. (Byddai hefyd yn cael gwared ar unrhyw amheuaeth – amheuon nad yw Llywodraeth Cymru yn eu rhannu – y dylai Cymru gael ei chynrychioli yn ei rhinwedd ei hun yn aelod o'r Goruchaf Lys, fel y mae awdurdodaethau neilltuedig yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynrychioli eisoes). Nid oes angen i'r broses o ddatblygu awdurdodaeth neilltuedig i Gymru olygu, fodd bynnag, na ellid galw ar arbenigedd barnwyr Lloegr lle y bo hynny'n briodol. Yn y tymor byr i'r tymor canolig o leiaf, byddai'r rhan fwyaf o gyfraith Cymru yr un fath neu'n debyg i gyfraith Lloegr, ac nid yw egwyddorion sylfaenol systemau'r gyfraith gyffredin yn debygol o newid.

Un agwedd ddymunol iawn o Ddeddf Cymru 2017 oedd creu'r swydd farnwrol newydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Adeg datganoli ym 1999, daeth y Cynulliad Cenedlaethol (a Llywodraeth Cymru wedi hynny) yn gyfrifol, yn sgil trosglwyddo swyddogaethau, am ddarparu adnoddau ar gyfer grŵp amryfal o dribiwnlysoedd ac am ei weinyddu. Bydd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a benodwyd yn ddiweddar gyfrifoldebau penodol mewn perthynas â'r tribiwnlysoedd hynny. At hynny, mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith yn y broses o gytuno ar brosiect diwygio'r gyfraith newydd mewn perthynas â'r tribiwnlysoedd hyn, gwaith y disgwylir iddo ddechrau yn 2019.

Y Gymraeg

Fel y nodir uchod, mae awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr wedi'i seilio ar y cysyniad o unffurfiaeth. Roedd hyn yn cynnwys rhith o unffurfiaeth ieithyddol. Mewn gwirionedd, pan gafodd yr awdurdodaeth ei chreu ychydig iawn o bobl Cymru a siaradai air o Saesneg ac, mor ddiweddar â 1891, roedd 30% o boblogaeth Cymru yn uniaith Gymraeg. Mae'r rhith o unffurfiaeth ieithyddol yng Nghymru a Lloegr yn parhau hyd heddiw, o ran y llys ac o ran iaith gweinyddu'r gyfraith. Mae hawl gan y rheini sy'n ymddangos gerbron y llysoedd yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg ers Deddf Llysoedd Cymru 1942, ac mae'r Deddfau sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog. Mae statws cyfartal i destunau Gymraeg a Saesneg y cyfreithiau hyn a rhaid eu dehongli'n unol â hynny – golyga hyn lle y ceir unrhyw amwysedd ynglŷn â darparu deddfwriaeth Cymru rhaid ystyried y ddwy iaith². Unwaith eto, nid yw un awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn alluog i ddelio â hyn.

Addysg gyfreithiol

Fel awdurdodaethau cyfreithiol eraill ledled y byd, byddai awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru yn cael ei chreu yn seiliedig ar y gyfraith gyffredin. Byddai ei chyfreithiau yn wahanol, ond ni fyddent yn sylfaenol felly yng ngoleuni egwyddorion y gyfraith gyffredin y byddai awdurdodaeth gyfreithiol o'r fath yn cael eu seilio arnynt. Bydd angen addysg gyfreithiol bwrpasol yng Nghymru er mwyn ystyried y gwahaniaethau, ond bydd llawer iawn o'r hyn a addysgir yr un fath. Rydym yn rhagweld, felly, y bydd y rheini a addysgir yng Nghymru yr un mor hyddysg yng nghyfraith Lloegr ag y byddant yng nghyfraith Cymru – fel y byddai'r rheini a fyddai'n ymarfer yng Nghymru.

²Gellir darllen Pennod 12 o bapur ymgynghori Comisiwn y Gyfraith ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru i gael asesiad cynhwysfawr o hyn.

Y proffesiynau cyfreithiol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y sector cyfreithiol yng Nghymru. Mae manteision economaidd pwysig yn dod o gael sector cyfreithiol ffyniannus, ac mae hefyd yn hanfodol cael rhwydwaith hygyrch o bractisau cyfreithiol yn lleol i sicrhau bod pobl yn llwydo i gael mynediad effeithiol at gyfiawnder.

Rydym yn ymwybodol bod rhai ymarferwyr cyfreithiol wedi mynegi pryderon am greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, ac maent hefyd yn cwestiynu a allai hynny niweidio'r sector cyfreithiol yng Nghymru. Rydym yn deall y byddai sefydlu awdurdodaeth i Gymru yn golygu newid sylweddol. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y byddai hynny yn newid y patrwm cyfreithiol yn sylfaenol. Yn bwysicach eto, nid oes unrhyw reswm i ymarferwyr Cymru gael eu heithrio o awdurdodaeth gyfreithiol Lloegr a chyfraith Lloegr, ac i'r gwrthwyneb. Nid oes unrhyw fwriad creu rhwystrau heb reswm, ac nid oes angen gwneud hynny.

Yn wir, rydym yn rhagweld y bydd cyfleoedd yn deillio o hyn i gwmnïau mawr Cymru oherwydd byddant yn gallu 'marchnata' eu hunain fel cyfreithwyr sy'n arbenigo yng nghyfraith 'Lloegr' (gan mai ychydig o ymwahanu fydd rhwng y gyfraith yn y rhan fwyaf o feysydd o gyfraith fasnachol, naill ai oherwydd mai ychydig iawn o angen sydd i wneud hynny neu oherwydd nad ydy'r meysydd wedi eu datganoli), sydd â phrofiad hefyd o'r gyfraith sy'n ymwahanu yng Nghymru. Mae gan Ogledd Iwerddon a'r Alban sectorau cyfreithiol ffyniannus sy'n gweithredu mewn amgylchiadau tebyg felly nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam y dylai'r sector cyfreithiol yng Nghymru fod yn wahanol.

Rhan 2: Plismona a chyfiawnder fel gwasanaethau cyhoeddus

Llunio polisiâu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mewn modd cydgysylltiedig

Y fantais amlwg o allu alinio'r ffordd y llunnir polisiâu, y deddfir ac y gweithredir yw un o'r rhesymau pwysicaf dros ddatganoli set resymegol a chynhwysfawr o bwerau i unrhyw haen o lywodraeth – ceir potensial i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus trefnus ac effeithiol. Mae hwn yn fater cymhleth a hynod bwysig, yn arbennig mewn perthynas â throedd a chyfiawnder – fel sy'n cael ei gydnabod gan y Swyddfa Gartref yn yr adroddiad 'Prevention through the Partnership Approach', 1991 ('Adroddiad Morgan'). Bathodd y Swyddfa Gartref y term 'diogelwch cymunedol' ac 'agwedd fwy holistaidd' at leihau trosedd ac anrhefn a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar atal trosedd drwy ganolbwyntio ar y ffactorau achosol cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n arwain at droseddoldeb. Roedd yn cynnwys 19 o argymhellion, a'r pumed ohonynt yn cefnogi bod awdurdodau lleol yn cael cyfrifoldeb statudol clir dros ddatblygu ac ysgogi rhaglenni diogelwch cymunedol ac atal trosedd. Arweiniodd hyn at Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 a oedd yn gyfrifol am sefydlu trefniadau gweithio fel partneriaeth statudol rhwng awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau tân, iechyd a'r gwasanaeth prafw i atal a lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau ac aildroseddu.

Fodd bynnag, nid yw pwerau gweithredol Llywodraeth Cymru wedi'u seilio ar asesiad o'r hyn a fyddai'n ofynnol ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus effeithlon ac effeithiol. Ym 1999, roedd pwerau gweithredol yr Ysgrifennydd Gwladol (fel yr oeddynt wedi datblygu dros gyfnod o tua thri deg mlynedd) wedi eu datganoli (a chafodd y pwerau hynny eu trosi wedi hynny yn gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Cynulliad). Cyfaddawd ac ymarferoldeb gwleidyddol oedd prif ysgogiad y broses honno, yn hytrach na phenderfyniad ynglŷn â sut y gall deddfwrfa a gweithrediaeth fodern weithredu orau i wasanaethu'r bobl. Mae'n her cydweithio a chynnal gwasanaethau ar y cyd, ond mae gwneud hynny bron yn amhosibl pan nad yw'n glir pwy yn union fyddai'n gyfrifol ac yn atebol ar draws y gwasanaethau hynny y byddem yn ceisio eu cydgysylltu.

Mae dadlau mawr ynglŷn â'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac mae hynny'n rhannol o ganlyniad i werthoedd a blaenoriaethau sy'n gwahaniaethu. Ceir materion sy'n anodd eu datrys, er enghraifft sut i wneud arbedion effeithlonrwydd, diweddarau gwasanaethau digidol, darparu seilwaith gwell a gwneud y defnydd gorau o gyrff cyhoeddus a phartneriaid cyflenwi mewn ardaloedd penodol. Derbynnir yn gyffredinol, fodd bynnag, fod polisiâu cydgysylltiedig ac arweinwyr cyflenwi integredig yn arwain at arbedion cost, er enghraifft drwy leihau'r galw am wasanaethau yn sgil atal ac ymyrryd yn gynnar, ond yn gwella gwasanaethau a chanlyniadau hefyd i bobl agored i niwed a chymunedau, a nhw ddylai fod wrth galon unrhyw system gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwn yn fater sydd wedi cael ei ddadansoddi gan yr Institute for Government mewn astudiaeth a chyfres o adroddiadau. Mae'n nodi:

"...public service landscape is wide, varied and complex, with a mix of organisations from the public, private and voluntary sectors delivering a huge range of services which are rarely co-ordinated with each other. People find it difficult to navigate the system and access the support they need, particularly at crucial life transitions or when their needs are multiple and complex."

Mae cymhlethdod y patrwm a'r ystod o wasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn cael eu cyfleu gan y ffigur sydd i'w weld yn Atodiad 1. Mae'n bwysig nodi hefyd bod "cydgysylltu'r" gwasanaethau hyn yn fater ag iddo sawl dimensiwn ynddo'i hun. Ceir rhai amgylchiadau sy'n rhaid eu bodloni cyn y gellir "cydgysylltu" gwasanaethau i ddinasyddion. Yn gyffredinol, gellir gwneud hynny dim ond os yw polisi, a lle bo hynny'n angenrheidiol, y gyfraith a rheoleiddio hefyd, yn gydgysylltiedig. Rhaid hefyd fod gweithgareddau cyrff cyhoeddus a chyrrff perthnasol eraill, yn ogystal ag adnoddau, yn gydgysylltiedig.

Mae datganoli yn allweddol i sicrhau bod modd cydgysylltu gwasanaethau. Fel y dywed yr Institute for Government, rhagdybir bod mwy o ddatganoli yn mynd law yn llaw â chyflenwi gwasanaethau mewn

Tudalen y pecyn 87

modd mwy cydgyssylltiedig. Sicrhau bod pwerau ac adnoddau'n cael eu datganoli, er mwyn hybu datblygu economaidd a darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn modd mwy effeithlon, yw'r bwriad y tu ôl i lawer o'r gweithgareddau sy'n cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd yng nghyd-destun Lloegr. Gellir gweld enghreifftiau gwyb o hyn yn y modelau llywodraethu maerol yn Llundain a Manceinion sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. O dan y modelau, datganolir y weinyddiaeth a'r gyllideb ar gyfer asiantaethau cyfiawnder yn y dinasoedd hyn er mwyn gweithio tuag at 'dull system gyfan' a fydd, yn ôl geiriad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn "facilitate a transformation in criminal justice outcomes...including a reduction in reoffending and repeat victimisation"³.

Cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

Cynlluniwyd y patrwm ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a'r dulliau gweithio sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau bod dull cynaliadwy a mwy cydgyssylltiedig yn cael ei roi ar waith sy'n canolbwyntio ar integreiddio gwasanaethau yn well. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i atal ymddygiad troseddol, ymyrryd yn gynnar a pharatoi at y dyfodol. Yr egwyddorion arweiniol a amlinellwyd yn strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb'⁴ yw atal, partneriaeth, a chydweithio i sicrhau canlyniadau gwell. Nod y strategaeth yw sicrhau diben cyffredin wrth arwain a llywodraethu, gan fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn cefnogi cyflenwi effeithiol ac effeithlon ar lawr gwlad. Drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, darperir arweiniad cydgyssylltiedig sy'n gallu canolbwyntio ar y blaenoriaethau a rennir a hyrwyddo arloesedd ar lefel leol.

Mae'r bwriad yn glir, felly. Ond ceir rhwystrau sylweddol cyn y gellir bodloni'r dull newydd o weithio a ragwelir gan y Ddeddf.

Trefniadau datganoli presennol yn creu rhwystrau

Mae sicrhau bod gan y rheini sy'n gweithredu unrhyw system gydgyssylltiedig "set gynhwysfawr o bwerau" yn hanfodol ar gyfer cynnal system o'r fath. Wrth benderfynu beth sy'n cael ei ddatganoli yng nghyd-destun Cymru, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru yw'r man cychwyn. Nid yw'r pwerau hyn yn gynhwysfawr. I'r gwrthwyneb, maent yn anhrefnus ac yn aml yn afresymegol. Er enghraifft, gellir darparu ar gyfer y gwasanaethau ambiwlans a thân, ond ni all y Cynulliad ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol i'r heddlu, y gwasanaeth prawf neu asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill eistedd ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er gwaetha'r rôl ganolog y maent yn ei chwarae mewn cymunedau, a hynny oherwydd eu bod yn awdurdodau a gedwir yn ôl. (I'r gwrthwyneb i hynny, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddol, drwy rinwedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn cael eu gwneud yn destun Safonau'r Gymraeg sy'n rhagnodi eu rhwymedigaethau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Heddlu'r Gogledd wedi bod yn arbennig o arloesol ac ymroddedig i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg). Yn fwy cyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n chwarae rôl i atal pobl rhag mynd i mewn i'r system gyfiawnder troseddol ac o bosibl cael eu hanfon i'r carchar, neu sy'n cyfrannu at adsefydlu unigolion wedi iddynt gael eu rhyddhau, wedi cael eu datganoli. Ond nid yw'r asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y carchardai eu hunain, wedi cael eu datganoli.

Mae 'Egwyddorion Peel', a seiliwyd ar Ddeddf Heddlu Metropolitan 1829 Syr Robert Peel, a sefydlodd yr Heddlu modern ym Mhrydain, yn datgan:

"To recognise always that the test of police efficiency is the absence of crime and disorder, and not the visible evidence of police action in dealing with them."

³ Working Towards Justice Devolution to London: Memorandum of Understanding between the Ministry of Justice, Mayor of London's Office for Policing and Crime and London Councils.

⁴ www.llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

Fodd bynnag, er mai Llywodraeth y DU sy'n pennu dulliau polisi plismona a chyfiawnder ar hyn o bryd, dylanwadir yn fwy uniongyrchol ar lawer o'r ffactorau achosol cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n arwain at droseddoldeb gan ddulliau polisi Llywodraeth Cymru. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Diogelwch Cymunedol yng Nghymru' (2016), yn sôn am yr ymwahanu cynyddol rhwng polisi ac ymarfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac mae'n dweud bod 'partneriaid' diogelwch cymunedol, i bob pwrpas, yn cael eu dal yn y canol. Dywedir yn yr adroddiad:

"Ar sail canfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus gydgysylltu ffordd strategol o fynd ati i gyflawni diogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd ac yn tansellio'r potensial i helpu pobl i aros yn ddiogel."

Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o ddiogelwch cymunedol,⁵ a gynhaliwyd y llynedd fel ymateb i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yn nodi amryw o agweddau hanfodol ar weithio partneriaeth amlasiantaeth yng Nghymru sy'n cael eu tansellio'n ddifrifol gan y ffordd y rhennir y cyfrifoldebau, atebolrwydd ac arweinyddiaeth ar hyn bryd. Mae'n dweud bod y canlyniadau i ddinasyddion Cymru, o ganlyniad, yn wan. Mae'r rhain yn cynnwys:

- methiant partneriaethau ac asiantaethau partner unigol i weithredu a chynllunio gwasanaethau ar sail trefniadau rhannu, defnyddio a dadansoddi data, ymchwil a thystiolaeth amlasiantaeth cadarn;
- rhwystrau sy'n codi yn sgil blaenoriaethau sy'n cystadlu a'r gostyngiad yn adnoddau'r sector cyhoeddus ar gyfer helpu i 'brif ffrydio' trefniadau cynllunio gwasanaeth integredig a chydweithredol a darpariaeth sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar;
- methiant i gymell dulliau 'buddsoddi i arbed' o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad

i strwythurau a seilos cyllidebu presennol (e.e. buddsoddi mewn dulliau cyfiawnder ieuencid datganoledig fel atal ac ymyrryd yn gynnar yn arwain at arbedion yn bennaf ar gyfer cyllidebau cyfiawnder troseddol nad ydynt wedi eu datganoli, buddsoddi mewn dulliau plismona nad ydynt wedi eu datganoli o atal trais ac ymyrryd yn gynnar yn arwain at arbedion ar gyfer gwasanaethau ieuchyd datganoledig);

- llai o gyfleoedd ar gyfer cyllidebu, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cyhoeddus 'ar sail lle' ac 'sy'n canolbwyntio ar y person' mwy cynaliadwy a rhesymegol, sy'n gwneud mwy o synnwyr ac sy'n arwain at ganlyniadau gwell i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.

Gall y Cynulliad Cenedlaethol greu pob math o droseddau a gwneud newidiadau eang i'r gyfraith droseddol, ond nid oes ganddo unrhyw ddylanwad dros y system gyfiawnder troseddol. O ran gweinyddu cyfiawnder yn gyffredinol, mae llawer o dribiwnlysoedd wedi eu datganoli, ond dim un llys. Mae anawsterau'n codi yn sgil hyn wrth ymgysylltu â'r rheini sy'n gyfrifol am ddulliau dedfrydu nad ydynt yn effeithiol o ran lleihau nifer y rhai sy'n aildroseddu, neu'r rheini sydd, mewn gwirionedd, yn cyfrannu at ganlyniadau afresymol, er enghraifft lle y bo'n rhaid i blant menywod sy'n cael dedfryd o garchar amhriodol gael eu cymryd i ofal.

O ystyried y ffigur sy'n cynrychioli gwasanaethau cyhoeddus yn Atodiad 1, gwelir bod y rhan fwyaf o'r rhain wedi cael eu datganoli ond nad yw rhai eraill. I'r gwrthwyneb, yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mae bron pob un gwasanaeth wedi ei ddatganoli, ac mae hyd yn oed "bargeinion dinesig" Lloegr yn cael pwerau sydd wedi'u cynllunio i fod yn addas at y diben o gydgysylltu gwasanaethau i'r dinesydd, fel y nodwyd uchod.

Gweinyddu cyfiawnder yng nghyd-destun Cymru

Mae cysylltiad annatod rhwng cyflenwi gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru â gwasanaethau

⁵ Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel: Adolygiad gan Lywodraeth Cymru o drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru (Rhagfyr 2017).

datganoledig, sef, yn bennaf, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, dysgu a sgiliau a thai. Mae lleihau troseddu ac aildroseddu, cefnogi dioddefwyr ac atal trosedd yn dibynnu ar gynllunio a chyflenwi ar y cyd gan yr asiantaethau cyfiawnder hyn, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cymdeithasau tai, ysgolion a cholegau addysg bellach a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r rhyngddibyniaeth sy'n bodoli ymhlith sefydliadau sydd wedi eu datganoli a'r rheini nad ydynt wedi eu datganoli yn y maes cyfiawnder yn drawiadol, er enghraifft o ran:

- pa mor ddibynnol y mae cynlluniau diwygio carchardai Llywodraeth y DU ar fewnbynau yn y meysydd sydd wedi eu datganoli, iechyd, addysg, dysgu a sgiliau a thai, yn ogystal â'r pwysau cynyddol ar ofal cymdeithasol oherwydd bod poblogaeth carchardai yn mynd yn hŷn;
- yr effaith fawr y mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y llysoedd yn ei chael ar wasanaethau datganoledig – yn arbennig o ran cyfiawnder y teulu a'r dedfrydau o garchar i droseddwy'r sydd â chyfrifoldebau rheini/gofalwyr;
- enghreifftiau o ymgysylltu adeiladol â'r farnwriaeth ar faterion gofal cymdeithasol, er enghraifft, drwy'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol a'r Pwyllgor Cynghori trawsbleidiol;
- rôl gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau diogelwch cymunedol, o ran atal a lleihau troseddu ac aildroseddu – yn arbennig ystyried y raddfa gymharol o droseddwy'r sy'n cael eu rheoli yn y gymuned yn hytrach nag yn y carchar neu mewn uned diogelwch ar unrhyw adeg (mae tua 16,000 o droseddwy'r yng Nghymru yn cael eu rheoli'n weithredol, a llai na 5,000 o'r rheini mewn carchar).

Fodd bynnag, mae'r setliad datganoli yn rhwystr i ddiwygio effeithiol gan Lywodraeth Cymru, a chan Llywodraeth y DU pan mae'n gweithredu mewn perthynas â Chymru. Gall busnesau Cymru deimlo'n rhwystredig oherwydd diffyg pŵer, diffyg rheolaeth dros gyllideb neu oherwydd bod diwygio a newid sefydliadol a gynlluniwyd yn San Steffan ar gyfer Lloegr, ond sydd hefyd yn gymwys i Gymru, yn gallu

amharu ac achosi cymhlethdodau. Er enghraifft, nid oedd newidiadau diweddar yn y strwythurau yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cyfiawnder ieuenctid a phrofiannaeth yn addas i'r diben yng nghydestun Cymru. Collwyd cyfle, neu ni fanteisiwyd yn ddigon sydyn ar gyfleoedd posibl i ddatblygu dulliau o helpu i gyflenwi gwasanaethau integredig mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a chyrrff datganoledig. Mewn meysydd fel iechyd ac addysg carcharorion, mae diffyg eglurder ynghylch atebolrwydd sy'n mynd yn groes i lywodraethu da a chanlyniadau gwell. Yn yr un modd, ceir enghreifftiau o fentrau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder a weithredwyd gan Lywodraeth y DU yn Lloegr yn unig, a hynny oherwydd y rhyngddibyniaeth â gwasanaethau sydd wedi eu datganoli yng Nghymru. Un enghraifft yw llysoedd alcohol a chyffuriau arbennig y teulu a gynlluniwyd i wella canlyniadau i blant a theuluoedd drwy gynnig dull arall o weithio gyda rhieni sy'n destun achosion gofal ac sy'n camddefnyddio sylweddau. O ran addysg, mae'r llinell atebolrwydd yn llawer mwy eglur a phendant gan fod sgiliau a chyflogadwyedd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru, ac yn cael eu hariannu ganddi. Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas weithio agos â'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi yng Nghymru sy'n gyfrifol am gomisiynu pob math o ddysgu yng ngharchardai Cymru.

Cyfleoedd i arloesi a diwygio

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau drwy raglenni deddfwriaeth a chyflenwi ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar y system gyfiawnder. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad 2, ond efallai fod gwerth i'r Comisiwn ystyried ymhellach y cydweithio sy'n parhau â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi i ddatblygu glasbrint cyflenwi cyfiawnder neilltuedig ar gyfer cyfiawnder ieuenctid a throseddwy'r sy'n fenywod.

Mae'r patrwm ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn creu cyfleoedd ar gyfer gwella a diwygio'n barhaus i hyrwyddo gweithio'n fwy integredig. Ymhlith yr enghreifftiau y mae:

Tudalen y pecyn 90

- Rydym wedi trawsnewid cyfiawnder ieuencid yng Nghymru drwy ddefnyddio model sy'n seiliedig ar drin pobl ifanc yn y system fel plant yn gyntaf ac fel troseddwr yn ail – gan gydnabod eu hawliau drwy'r amser. Mae mentrau fel y dull 'canolfan/ brysbennu' o ymyrryd yn gynnar – sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru – wedi arwain at ostyngiad sylweddol a pharhaus yn nifer y rheini sy'n mynd i mewn i'r System Gyfiawnder am y tro cyntaf drwy ddargyfeirio plant oddi wrth droseddu, ac mae ein dull Rheoli Achosion Uwch sy'n seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentynodod ar gyfer rheoli pobl ifanc sy'n troseddu dro ar ôl tro ymhlith y cohort hwn. Bydd y dulliau hyn yn rhan o'r sylfaen ar gyfer y 'glasbrintiau' newydd a ddatblygir ar gyfer ieuencid cyfiawnder a throseddwr sy'n fenywod.
- Rydym wedi gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi ac asiantaethau eraill i gynnal peilot o Brosiect Braenaru i Fenywod yng Nghymru i gynllunio a chyflwyno dull amlasiantaeth, integredig, yn benodol i fenywod o weithio gyda menywod sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol. Mae'r gwerthusiad cychwynol sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, atal a dargyfeirio wedi bod yn hynod galonogol ac amcangyfrifir bod 87% o'r rheini sydd wedi bod yn rhan o'r mentrau hyn heb aildroseddu eto ar ôl yr ymyriad.
- Mae ein Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n torri tir newydd, wedi chwarae rhan hanfodol i wella'r dulliau atal, diogelu a'r cymorth i bobl sy'n cael eu heffeithio gan y materion hyn, ac mae wedi arwain at fwy o gydweithio rhanbarthol, cynllunio a chomisiynu gwell o ran gwasanaethau amlasiantaeth, a sefydlu Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth fel y rheini yng Nghwm Taf a Chaerdydd, i nodi risgiau, materion a dod o hyd i'r rheini sy'n agored i niwed yn gynharach er mwyn atal niwed mwy difrifol. Mae ein hagwedd at Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais

Rhywiol hefyd wedi ysgogi adolygiad Cymru Gyfan o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod cysylltiadau gwell â threfniadau diogelu yng Nghymru, sicrhau bod llai o ddyblygu gwaith sy'n cael a lleihau costau a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau er mwyn atal trychinebau yn y dyfodol.

- Cydnabyddir hefyd fod yna gysylltiad rhwng mynediad at gyfiawnder a chydaddoldeb. Mae anawsterau yn cael mynediad at gyfiawnder yn effeithio mewn modd anghyfartal ar grwpiau ag iddynt nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn y cyd-destun hwnnw, cyhoeddodd Prif Weinidog ar 8 Mawrth 2018 (Diwrnod Rhyngwladol y Menywod) adolygiad eang ei gwmpas o bolisi rhywedd a chydaddoldeb Llywodraeth Cymru, i ddod â momentwm newydd i'n gwaith yn y maes hwn ac i ystyried sut y gallwn sicrhau bod rhywedd yn cael lle blaenllaw wrth wneud penderfyniadau. Mae'r adolygiad yn gweithio'n agos gyda Chwarae Teg, yr elusen flaenllaw i fenywod, a chyd a phartneriaid eraill gan gynnwys Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Bydd cam cyntaf yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2018.

Yn fwy cyffredinol, mae cyfle i ymateb mewn ffyrdd mwy creadigol i'r rhesymau dros droseddu, a'r effaith a gaiff cosbau ar gyfleoedd bywyd unigolion yn yr hirdymor. Drwy gydweithio'n agosach rhwng y farnwriaeth, asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, mae cyfle'n codi i gynnig atebion gwell na charcharu, er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei gwireddu a bod llwybrau adeiladol yn cael eu creu tuag at ganlyniadau gwell ar gyfer unigolion, eu plant a chymunedau ehangach.

Tudalen y pecyn 91

Casgliadau a'r ffordd ymlaen

Mae'r Dystiolaeth Ysgrifenedig hon yn amlinellu'n gyffredinol sut mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyfiawnder yng nghyd-destun ein setliad cyfansoddiadol, ac mae'n tynnu sylw at yr hyn sydd, yn ein barn ni, yn broblemau heb eu datrys mewn perthynas â chyfiawnder a'r awdurdodaeth yng Nghymru. Mae'n dangos ein bod yn weithredol ar hyn o bryd o ran cefnogi cyfiawnder drwy ymyriadau arloesol ar draws ein portffolios. Rydym yn meddwl y byddai pwerau ehangach yn ein galluogi i wneud llawer mwy i helpu i atal troseddu ac i adsefydlu troseddwy yn effeithiol.

Byddwn yn awyddus i wybod barn y Comisiwn ar y materion hyn, a sut y gallem ddatblygu ar yr arloesi sy'n digwydd ar hyn o bryd a chydweithio i sefydlu model cyflenwi mwy cynaliadwy ac effeithiol i Gymru.

Cafodd polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y cyfansoddiad ei osod yn ddiweddar yn y 'Bil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru', a gyhoeddwyd yn 2016. Mewn perthynas â'r materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn, rydym o'r farn:

- bod y trefniadau ar gyfer gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn hen ffasiwn ac nad ydynt yn adlewyrchu'r trawsnewid a fu o ran llywodraethu Cymru ers 1999;
- bod materion a gedwir yn ôl a chyfyngiadau mewn perthynas â phlisma a chyfiawnder yn cael effaith niweidiol sylweddol ar wasanaethau eraill sydd wedi cael eu datganoli: gellid lliniaru hyn o dro i'w gilydd drwy drefniadau gweithio rhynglywodraethol da, ond nid yw hyn yn ateb hirdymor cynaliadwy ac nid oes atebolrwydd clir;
- bod cyfleoedd sylweddol i gyflawni canlyniadau gwell mewn perthynas â phlisma a chyfiawnder gyda model cyflenwi sy'n fwy neilltuedig i Gymru;
- bod gan Lywodraeth Cymru raglen weithgar o ddeddfwriaeth a chyflenwi a gynlluniwyd i hyrwyddo Cymru ddiogel, sy'n cael ei hysgogi gan weithredu ataliol i dorri'r cylch troseddu a darparu dewis arall sy'n adeiladol i unigolion – mae'r setliad datganoli yn rhwystr i hyn, fodd bynnag;

- bod mynediad at gyfiawnder yn achos cryn ofid – mae Llywodraeth Cymru yn cynnal amryw o raglenni a gynlluniwyd i ddarparu cyngor a chefnogaeth ataliol, ond mae angen mynediad effeithiol a fforddiadwy i'r llysoedd o hyd er gwaethaf hyn;
- bod gwasanaethau cyfreithiol yn darparu cefnogaeth hanfodol i'r economi, a bydd yn parhau'n sector â blaenoriaeth yn ei rinwedd ei hun o dan strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru. Ni fydd creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a datganoli'r system gyfiawnder yn niweidiol i'r sector yn ein barn ni, ac yn wir, dylai gwneud hynny gynnig cyfleoedd newydd a fydd o fantais i'r sector.


Wrth lansio'r hyn a ddaeth yn Ddeddf Cymru 2017, dadl Stephen Crabb AS, cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd bod:

"...the story of Welsh devolution has long been one of fixes, fudges and political expediency. Of falling short, and thinking short-term. We need to end the process of constantly tinkering with the devolution settlement. Let's get devolution right. For the longer-term."

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hyn. Ond roedd Deddf Cymru 2017 yn annigonol. Mae bwlch yn nhrefniadau cyfansoddiadol Cymru sy'n rhaid ei lenwi er mwyn sicrhau bod y trefniadau datganoli yn iawn ar gyfer y tymor hwy. Dylid creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a dylid datganoli materion yn ymwneud â phlisma a chyfiawnder. Mae'n amser cwblhau'r broses ddatganoli, rhoi taw ar y siarad am y cyfansoddiad, a chreu system sefydlog a rhesymegol o lywodraeth i Gymru, un sy'n golygu bod modd cyflenwi gwasanaethau i bobl Cymru yn effeithlon ac effeithiol. Ni ddylai pobl Cymru ddisgwyl dim llai na hynny.

Tudalen y pecyn 92

Atodiad



Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i gefnogi canlyniadau gwell ym maes cyfiawnder

Mae cydnabod bod gan dlodi effaith fawr ar gyfleoedd bywyd unigolion, y rhaglen weithgarwch llawer ehangach a amlinellir yn *Ffyniant i Bawb* yn berthnasol, ond yr enghreifftiau a gynigir isod yw'r meysydd hynny â'r cysylltiad agosaf at y system gyfiawnder.

Trais yn erbyn menywod

Yn Ebrill 2015 cafodd y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) y Cydsyniad Brenhinol a dod yn Ddeddf. Gan weithio o fewn cyfyngiadau cymhwysedd wedi ei ddatganoli, nod y ddeddfwriaeth yw gwella'r gwaith o atal camdriniaeth, a gwarchod a chefnogi pobl y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n cyfrannu at gyflawni nodau'r Ddeddf; ym mis Tachwedd 2016 cyhoeddwyd ein Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 – 2021. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar faterion y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdanynt, ond mae'n cydnabod yr angen i gydweithio â phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus (wedi'u datganoli a heb eu datganoli) ac â Llywodraeth y DU, y mae ei strategaeth 'Ending Violence Against Women and Girls 2016-2020' yn nodi nifer o gamau gweithredu sy'n gymwys i Gymru, Mae'r cydweithio hwn yn bwysicach byth gan fod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei hymgyngoriad ar Fil Cam-drin domestig ar 8 Mawrth, sy'n cynnig sefydlu Comisiynydd Cam-drin Domestig gyda chylch gwaith i Gymru a Lloegr. Bydd yn bwysig gweithio drwy'r berthynas rhwng y comisiynydd arfaethedig a Chynghorwyr Cenedlaethol Gweinidogion Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru ac fe ddatblygodd y strategaeth Rhoi Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf yn 2014 i wella gwasanaethau i bobl ifanc o Gymru sydd yn y system cyfiawnder ieuencid neu sydd mewn risg o fod yn rhan ohoni. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid gael eu trin fel plant yn gyntaf ac fel troseddwr yn ail. Rydym yn cydweithio'n agos â Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a gwasanaethau cyfiawnder ieuencid ledled Cymru i fonitro perfformiad ac i gynnig cymorth gwella yn ôl yr angen.

At hynny, rydym yn cyd-gadeirio cyfarfodydd strategaeth ac ymarfer y strategaeth cyfiawnder ieuencid â Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru – megis Panel Cyngori Cyfiawnder Ieuencid Cymru a'r Bwrdd Gweithredu Strategol – mewn partneriaeth sy'n ceisio lliniaru'r materion a'r heriau sydd ynghlwm wrth roi polisi cyfiawnder ieuencid ar waith o fewn cyd-destun o ddatganoli cynyddol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i ddatblygu a gwerthuso ymagweddau Cymreig neilltuoel at Reoli Achosion Uwch, model trawma a seilir ar ein dealltwriaeth gynyddol o Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, yn enwedig mewn perthynas â sut y gall y profiadau hynny gynyddu'r tebygrwydd y bydd person ifanc yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Rydym hefyd yn ymwybodol o effaith natur gyloch Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod rhwng y cenedlaethau, gan fod plant yn fwy tebygol o fod yn destun Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod hefyd lle mae eu rhieni wedi bod yn destun Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Mae cysylltiadau clir hefyd rhwng y system cyfiawnder ieuencid a'r system Plant sy'n Derbyn Gofal gyda chyfran uwch o blant sy'n derbyn gofal yn dod yn droseddwr ifanc. Mae lleihau mynychder ac effaith Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac rydym yn sicrhau

Tudalen y pecyn 94

ein bod yn gwybod am faterion Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod wrth weithio ar draws meysydd polisi. Er hynny, gall ein hanallu i reoli agweddau ar y system cyfiawnder troseddol lesteirio'r gwaith hwn, er enghraifft mewn perthynas â phlant mewn llety diogel, ac effaith carcharu rhieni.

Cyn iddo gael ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, cynhaliodd Charlie Taylor adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid a gafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2016. Gwnaeth yr adolygiad 36 o argymhellion i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, arolygiaethau perthnasol, yr awdurdodau lleol a chyrrff eraill. Er hynny, bydd angen mynd ati mewn ffordd wahanol yn achos llawer o'r argymhellion i Gymru, nid lleiaf oherwydd y cydweithio effeithiol sydd eisoes yn bodoli rhwng Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Llywodraeth Cymru. Ymhellach, mae deddfwriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gofyn am ddull gweithredu gwahanol i sicrhau y darperir system cyfiawnder ieuenctid sy'n addas at y diben ac sy'n darparu'r ffocws a chymorth gofynnol i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU felly wedi cytuno i ddatblygu dull gweithredu penodol o ran cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. I'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i gyflawni adolygiad o'r ddarpariaeth ym maes cyfiawnder ieuenctid, gan adeiladu ar y dull gweithredu a ddefnyddiwyd gan yr adolygiad gan Charlie Taylor. Rhagwelir yr aiff y gwaith rhagddo ar fyrder i adolygu ymagwedd cyfiawnder ieuenctid yn ei chrynswth, o atal a dulliau ymyrryd yn gynnar, cyfiawnder adferol cymunedol, yr ystad ddiogel ieuenctid yng Nghymru, a darpariaeth a gwasanaethau adsefydlu. Er enghraifft, ni fernir bod y sefydliad troseddwy ifanc a leolir o fewn amgylchedd carchar oedolion yng Ngharchar ei Mawrhydi Parc yn amgylchedd priodol i fynd i'r afael ag anghenion plant.

Plant Sy'n Derbyn Gofal A Phobl Sy'n Gadael Gofal

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant, sy'n anelu at leihau nifer y plant sy'n dod i mewn i ofal, gwella canlyniadau i blant sydd mewn gofal a chefnogi'r rhai sy'n gadael gofal yn well. Mae'r Grŵp hwn sy'n gweithio ar draws y Llywodraeth ac ar draws sectorau'n atebol i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant ac mae ganddo raglen waith eang, gan gynnwys arian i brosiect Reflect sy'n cefnogi mamau y mae eu plant wedi mynd i mewn i'r system ofal, i helpu i leihau'r risg bod plant eraill yn gorfod mynd i mewn i ofal yn y dyfodol.

Mae'r Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn monitro'r ffordd y mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Laming a wnaeth set gynhwysfawr o argymhellion i weddnewid bywyd plant mewn gofal drwy eu hamddiffyn rhag bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r Grŵp Cyngori'r Gweinidog hefyd wedi integreiddio'r materion a godwyd yn Adroddiad Laming yn ei raglen waith.

Yn ogystal â hynny, mae cyllid wedi'i ddarparu i gyflwyno cynnig gweithredol o eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan gynnwys pobl ifanc yn yr ystad ddiogel.

Mae Prosiect Plant Coll Gwent yn dwyn ynghyd swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd a chynrychiolwyr addysg i ymateb i blant sy'n mynd ar goll o gartref neu o ofal. Maent yn cydweithio mewn modd cydgysylltiedig i rannu gwybodaeth ac i asesu'r risgiau y gallai'r bobl ifanc hyn fod yn agored iddynt.

Cyfiawnder Teuluol

Yng Nghymru mae'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yn dwyn ynghyd y bobl allweddol yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru gan ddarparu cymuned o ddealltwriaeth a diben cyffredin o wella gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru. Mae'r plant a'r teuluoedd

sy'n rhan o'r system cyfiawnder ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed yn aml iawn. Er hynny, er nad yw cyfiawnder teuluol wedi'i ddatganoli, mae'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r plant a'r teuluoedd hyn wedi'u datganoli e.e. CAF/CASS Cymru a'r awdurdodau lleol. Mae angen i wneuthurwyr polisi cyfiawnder teuluol, felly, flaenoriaethu ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid gweithredol yng Nghymru wrth ystyried diwygiadau neu newidiadau polisi er mwyn sicrhau bod gwerthfawrogiad o'r amrywiadau sy'n bodoli yng nghyd-destun Cymru ond hefyd i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn briodol ac yn debygol o weithio yng Nghymru.

Oedolion sy'n troseddu

Er nad yw cyfiawnder troseddol ei hun (sy'n cynnwys gweithrediadau'r llysoedd, y trefniadau dedfrydu i droseddwy, rheoli'r troseddwy hynny yn y ddalfa a'u hadsefydlu yn y gymuned) wedi'i ddatganoli, mae'n ofynnol i'r mwyafrif o'r gwasanaethau y mae eu hangen i reoli troseddwy, cyn-droseddwy ac i hybu adsefydlu wedi'u datganoli. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am garchardai, ond Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd ac addysg mewn carchardai cyhoeddus. Ymhellach, mae llawer o'r gwasanaethau sy'n cefnogi troseddwy yn y gymuned, gan gynnwys tai, iechyd, addysg, sgiliau a gofal cymdeithasol, wedi eu datganoli. Cydnabyddir yn eang wrth gwrs bwysigrwydd y gwasanaethau hyn wrth leihau troseddu ac aildroseddu, a'r angen iddynt gydweddu â gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Er hynny, mae penderfyniadau polisi sylweddol yn aml yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU heb ymgysylltu ystyrion â Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad mae'r atebion a nodir ganddynt yn seiliedig ar y sefyllfa yn sector cyhoeddus Lloegr, ac efallai na fyddant yn briodol nac yn ymarferol yng nghyd-destun Cymru. Yn yr un modd, fel y nodwyd cyn hyn, mae ymagwedd bolisi Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar geisio rheoli mwy o droseddwy y tu allan i'r ystad garchardai, sydd â goblygiadau

ariannol a goblygiadau eraill o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru ac sy'n gofyn am gydweithrediad llawn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

Mae Llywodraeth y DU wedi tynnu sylw at yr angen i gynyddu cymorth iechyd meddwl i'r bobl hynny sydd yn y system cyfiawnder troseddol i oedolion, yr angen i gynyddu mynediad at gymorth camddefnyddio sylweddau a'r angen am lety mwy priodol ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Mae'r rhain yn adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd yn strategaeth Llywodraeth Cymru sef *Ffyniant i Bawb* a mater i'r gwasanaethau datganoledig fyddai darparu'r rhain.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi wrthi'n ymrafael â nifer o heriau sylweddol yn y system cyfiawnder troseddol oedolion yng Nghymru fel y mae ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- y ddarpariaeth wael yn rhai o garchardai cyhoeddus Cymru;
- diffyg mynediad at ymyriadau dargyfeiriol priodol a fyddai'n atal pobl rhag mynd i'r ddalfa;
- nifer cynyddol o fenywod yn cael eu hanfon i'r carchar am droseddau diannod, yn aml ar ddedfrydau byr gydag effeithiau cynyddol ar eu teuluoedd a'u plant;
- y risg gynyddol o aildroseddu oherwydd prinder cymorth priodol i bobl wrth iddynt drosglwyddo o'r ddalfa i ddarpariaeth gymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi yng Nghymru i lunio fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol i'r rhai sydd mewn risg o aildroseddu yng Nghymru, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd mewn perthynas ag aildroseddu ar sail y gwahanol amgylchiadau sy'n bodoli yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn nodi pum prif faes gweithredu:

- lleihau nifer y menywod yn y system cyfiawnder troseddol;
- herio cyflawnwyr cam-drin domestig; eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd;

Tudalen y pecyn 96

- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cyn-bersonél y lluoedd arfog sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol;
- darparu cymorth i oedolion ifanc/pobl sy'n gadael gofal;
- cefnogi teuluoedd troseddwr ar ôl iddynt gael eu dedfrydu;
- blaenoriaethu anghenion grwpiau Asiaidd, Duon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Menywod sy'n troseddu

Nid oes unrhyw garchardai i fenywod yng Nghymru ac felly mae'n ofynnol i unrhyw fenywod o Gymru sy'n cael dedfryd o garchar wasanaethu eu dedfryd mewn carchardai yn Lloegr, ymhell o'u teuluoedd. Mae hyn yn achosi mwy o gymhlethdod i'r fenyw, ei theulu a'r gwasanaethau cymorth a'r trefniadau adsefydlu sydd eu hangen. Wrth ddatblygu 'glasbrint' neilltuoel ym maes cyfiawnder i fenywod sy'n troseddu byddwn yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd o weddnewid ein hymagwedd at gyfiawnder ieuencid yng Nghymru ac yn canolbwyntio ar sefydlu dull 'system gyfan' ar sail trawma sy'n darparu dulliau atal yn y gymuned, dargyfeirio ac ymyrryd yn gynnar, ochr yn ochr â darparu llety diogel mewn canolfannau i fenywod gyda gwasanaethau priodol i'r rhai sy'n fwy tebygol o droseddu.

Rhoddir dedfryd ddiannod i lawer o fenywod am lawer o droseddau na fyddent yn arwain at garchar yn achos dynion. Heblaw'r troseddau mwyaf difrifol, mae menywod yn tueddu i gael dedfryd fyrdymor sy'n gallu cael yr effaith fwyaf ar y menywod a'u teuluoedd, nid lleiaf am mai menywod, gan amlaf, yw prif ofalwyr eu plant. Gall dedfryd fyrdymor gael effaith hirdymor, gan olygu bod y fenyw'n colli ei thenantiaeth a bod y plant weithiau'n gorfod cael eu derbyn i ofal preswyl. O ganlyniad bydd angen cymorth gan wasanaethau datganoledig ac mae yna risg o ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i blant troseddwr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi ac

asiantaethau eraill i gynnal prosiect peilot Braenaru i Fenywod yng Nghymru a fydd yn 'design and deliver a women-specific, integrated, multi-agency approach to working with women who come into contact with the criminal justice system'.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrthi'n datblygu strategaeth ar wahân ar gyfer menywod sy'n troseddu fel rhan o waith Llywodraeth y DU i ddiwygio cyfiawnder ac, o gofio bod llawer o'r gwasanaethau allweddol y bydd eu hangen yn sail i strategaeth lwyddiannus wedi'u datganoli, mae'n glir y bydd angen dull gweithredu gwahanol yng Nghymru, ac y bydd angen sefydlu glasbrint neilltuoel ar gyfer darparu cyfiawnder yn y maes hwn.

Cysylltiadau â Heddluoedd Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau

Er mai'r Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am bolisi a chyllid plismona, mae cyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn 2012 wedi creu ymagwedd bolisi hybrid wedi'i datganoli/heb ei datganoli lle y gall Comisiynwyr Heddlu a Throseddau weithredu'n fwy hyblyg o fewn y fframwaith cyffredinol a bennir gan Lywodraeth y DU. Mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau presennol wedi datgan yn unfrydol eu cefnogaeth i ddatganoli plismona ac mae heddluoedd Cymru wedi buddsoddi mewn cyd-swydd Dirprwy Brif Gwnstabl i lywio gweledigaeth gytûn ar gyfer dull gweithredu gyfan gwbl ddatganoledig. Mae hyn wedi galluogi Llywodraeth Cymru i sefydlu perthynas agosach a mwy effeithiol â'r heddlu a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, sy'n ystyried eu bod yn gweithredu mewn ffordd 'ddatganoledig' ac – er eu bod yn dal yn atebol o fewn y fframwaith eang a bennir gan y Swyddfa Gartref – mae heddluoedd yn edrych i Lywodraeth Cymru yn gynyddol am gyfeiriad strategol. Nid yw hyn yn syndod o gofio bod mwy na thri chwarter o'r galw am wasanaethau'r heddlu yn ymwneud â bod yn agored i niwed, yn hytrach na throsedd, gyda chysylltiadau uniongyrchol â gwasanaethau datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabiailid, gan gynnwys Dirprwy Cymru gyfan i sicrhau bod gweithredu polisi plismona yng Nghymru'n cyd-fynd mor agos â phosibl â meysydd trawsbleidiol o gyfrifoldeb datganoledig. At hynny, Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi £16m i bedwar heddlu Cymru tuag at y gost o ddarparu mwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol i gefnogi plismona yn y gymdogaeth.

Mae'r dull cytûn hwn, er hynny, yn gymharol fregus gan ei bod yn ddarostyngedig i fimpwyon gwleidyddiaeth a'r potensial i 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu Cymru sydd i'w hethol yn 2020 arddel safbwynt gwahanol iawn a allai greu gwahaniaethau polisi amlwg iawn â Llywodraeth Cymru.

Mae modelau Heddlu'r Alban a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon yn dangos yn glir gallu heddluoedd datganoledig i gydweithio'n agos ag asiantaethau heb eu datganoli ar faterion megis troseddu cyfundrefnol difrifol a therfysgaeth – gan gadw digon o fuddiannau cyffredin i gydweithredu ar draws ffiniau a chadw gwasanaethau plismona sy'n adlewyrchu anghenion eu cymunedau'n well.

Addysg, dysgu a sgiliau

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi yn gyfrifol am gomisiynu darpariaeth dysgu a sgiliau a gwasanaethau llyfrgell i droseddwyd ym mhob un o garchardai Cymru. Ers 2009, cafodd swyddogaethau o dan adran 47 o Ddeddf Carchardai 1952 mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a llyfrgelloedd eu trosglwyddo (i'r graddau sy'n ymarferadwy mewn perthynas â Chymru) i Weinidogion Cymru.

Mae'r pwerau hyn yn ymwneud ag addysg a dysgu a rhaid iddynt gael eu harfer yng nghyd-destun y gyfundrefn i garcharorion a throseddwyd yn y gymuned, a nodir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chyflawni gweithredol drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi. Mae'r pwerau hyn yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru wella ymhellach ansawdd

a pherthnasedd dysgu ar gyfer troseddwyd yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ac yn ariannu'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau yn y carchardai oedolion yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi. Mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi ar gyfer darparu addysg a dysgu yng ngharchardai cyhoeddus Cymru.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi wrthi'n cynnal adolygiad o ddysgu yng ngharchardai Cymru a fydd yn ystyried effaith y system bresennol ac yn gwneud argymhellion i wella'r canlyniadau i garcharorion pan gânt eu rhyddhau. Maent wedi caffael ymgynghorwyr allanol i gynnal yr adolygiad y byddant yn ei oruchwylio. Byddant yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'r adolygiad ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau yn nes ymlaen yn 2018.

Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru mae cyfleoedd i gryfhau adsefydlu drwy fynd i'r afael â rhwystrau penodol i gyflogaeth, drwy alinio rhaglenni addysg, dysgu a datblygu sgiliau a darparu dilyniant o ran cefnogaeth i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau. Mae ymyriadau presennol yn cynnwys gweithio gyda'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac â rhanddeiliaid allweddol eraill yn ystod cyfnod adsefydlu carcharor adeg ei ryddhau.

Mae ymyriadau pellach yn anelu at fabwysiadu dull mwy modern, sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, o ddarparu hyfforddiant sgiliau mewn carchardai. Bydd hyn yn cynnwys integreiddio gwell â'r ystod ehangaf o asiantaethau sy'n cefnogi carcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau ac ar ôl hynny a chydweithio'n agosach â chyflogwyr a hwyluso defnydd gwell o Wybodaeth am y Farchnad Lafur er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws i'r ymyriadau ar swyddi go iawn.

Gofal Iechyd mewn Carchardai

Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu gofal iechyd yng ngharchardai'r sector cyhoeddus. Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru sy'n atebol am gynllunio gwasanaethau iechyd i garcharorion, ond dim ond mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi y gellir arfer y cyfrifoldeb hwn. Prif nod y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi yw darparu mynediad i wasanaethau gofal iechyd o'r un maint ac ansawdd ag y mae'r cyhoedd yn eu cael gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Ar lefel leol, mae gan Fyrddau Partneriaeth Iechyd mewn Carchardai, sy'n cael eu cadeirio ar y cyd gan Fyrddau Iechyd Lleol a llywodraethwyr y carchardai, gyfrifoldeb dros lywodraethu gwasanaethau iechyd mewn carchardai.

Mae Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol yn cydweithio â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi i ddatblygu set o flaenoriaethau cyffredin ar gyfer iechyd carchardai yng Nghymru. Bydd y blaenoriaethau'n adlewyrchu mai cyfrifoldeb cyffredin yw gwella iechyd a llesiant mewn carchardai.

Tai

Bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, a seilir yn agos ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith, yn ei gwneud yn symlach ac yn haws rhentu cartref, drwy gyflwyno un fframwaith cyfreithiol clir yn lle'r darnau amrywiol a chymhleth o ddeddfwriaeth bresennol. Mae hyn yn adeiladu ar Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a gyflwynodd ymhlith pethau eraill, gofrestru a thrwyddedu gorfodol i landlordiaid preifat a chryfhau atal digartrefedd.

At hynny, o dan Ddeddf 2014, nid oes gan garcharorion statws angen blaenoriaethol awtomatig. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o ddulliau neilltuol o gefnogi'r rhai sydd â'r risg mwyaf o fod yn ddigartref. Mae hyn yn cynnwys y **Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn**

Sefydliadau Diogel. Fframwaith aml-elfen yw hon ar gyfer cydweithio i helpu i atal carcharorion rhag dod yn ddigartref adeg eu rhyddhau.

Ym mis Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n ymgynghori ar sefydlu llys tai arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad o'r fath o ran egwyddor. Yn wyneb y ffaith bod Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru eisoes wedi'i ddatganoli, dylid gweld hyn yn gyfle i adolygu'r setliad datganoli yn y maes hwn yn ehangach. Câi safbwyntiau'r Comisiwn ar y cyfle i ehangu a chryfhau rôl Tribiwnlysoedd Cymru mewn perthynas â thai, ac yn ehangach, ym maes cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, eu croesawu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/00048/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCLA@assembly.wales

12 Mehefin 2018

Annwyl Mick,

Gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am nodi prosiect ar gyfer Cymru yn unig i'w gynnwys yn 13eg rhaglen Comisiwn y Gyfraith.

Mae prosiect ar gyfer adolygu'r gyfraith sy'n berthnasol i'n Tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, a gwneud argymhellion ar gyfer ei diwygio, wedi ei gytuno gan Brif Weinidog Cymru a'r Comisiynwyr.

Fel y gwyddoch, mae rheolau a gweithdrefnau presennol y gwahanol dribiwnlysoedd datganoledig sydd ar waith yng Nghymru yn gymhleth ac yn anghyson, gan eu bod wedi datblygu fesul dipyn o dan ystod eang o wahanol ddeddfwriaeth. Cafodd y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth hon ei datblygu cyn i dribiwnlysoedd gael eu hystyried gyda'i gilydd fel swyddogaeth farnwrol.

O siarad yn gyffredinol, rhagwelir y byddai Bil Tribiwnlysoedd (Cymru) yn gallu creu cysondeb o fewn proses y tribiwnlysoedd yng Nghymru drwy greu system unedig ar eu cyfer, yn debyg i'r system sy'n bodoli ar gyfer Cymru a Lloegr o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

Er bod Deddf Cymru 2017 eisoes wedi creu rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n darparu rhywfaint o gysondeb o fewn tribiwnlysoedd Cymru, mae pob tribiwnlys yn dal i gael ei lywodraethu gan y ddeddfwriaeth a'i sefydlodd, sydd bellach wedi dyddio mewn llawer o achosion. Mae rôl arweinyddiaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cael ei llesteirio gan y sail ddeddfwriaethol gymhleth hon, nad yw'n ymdrin â'i rôl o gwbl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCounselGeneral@gov.wales
YP.CwnslerCyffredinol@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn fras, gallai manteision system tribiwnlysoedd unedig gynnwys:

- Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru – rôl sy'n goruchwyllo'r holl dribiwnlysoedd
- Un broses ar gyfer penodi a diswyddo
- Un broses ar gyfer penodi Llywyddion a'r rheini sy'n cyflawni rôl dirprwy
- Pŵer i wneud rheolau a'u safoni
- Un broses ar gyfer apelio
- Proses glir ar gyfer ymdrin â chwynion
- Creu system sy'n cefnogi annibyniaeth farnwrol

Byddwch yn gwybod yn iawn am yr anawsterau ymarferol y mae'r statud gymhleth yn eu hachosi wrth fynd ati i weithredu Tribiwnlysoedd datganoledig Cymru mewn modd priodol ac effeithiol, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn croesawu'r prosiect hwn, a allai gynnig manteision sylweddol a fyddai'n helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch yn y maes hwn.

Yn gywir,



Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon